RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:
56/2019
DYDDIAD CYHOEDDI:
17/12/2019

# Ymchwil i'r nifer o blant yng Nghymru a roddwyd mewn gofal oddi ar rieni ag anabledd dysgu a rhesymau dros eu symud

© Hawlfraint y Goron
Digital ISBN 978-1-83933-694-2

Teitl: Ymchwil i'r nifer o blant yng Nghymru a roddwyd mewn gofal oddi ar rieni ag anabledd dysgu a'r rheswm dros eu symud

Awdur(on): Katy Burch, Victoria Allen, Colin Green, Vivien Taylor a Dr Sue Wise o Sefydliad Gofal Cyhoeddus, Prifysgol Oxford Brookes

Adroddiad llawn yr Ymchwil: Burch, K., Allen, V., Green C., Taylor, V a Wise, S. (2019). *Ymchwil i'r nifer o blant yng Nghymru a roddwyd mewn gofal oddi ar rieni ag anabledd dysgu a'r rheswm dros eu symud.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 56/2019.
Ar gael ar: https://llyw.cymru/rhieni-ag-anabledd-dysgu-ymwneud-ar-gwasanaethau-cymdeithasol

Safbwyntiau yr ymchwilydd ydy'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid, o angenrheidrwydd, rhai Llywodraeth Cymru

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â
Janine Hale
Adran Ymchwil Cymdeithasol a Gwybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: ymchwil.iechydagwasanaethaucymdeithasol@llyw.cymru

# Tabl y cynnwys

Rhestr tablau.....2
Cydnabyddiaeth.....3
Rhestr termau.....4
Crynodeb Gweithredol.....5
1. Rhagarweiniad.....8
2. Methodoleg yr Ymchwil.....12
3. Cwestiwn Ymchwil Un: I ba raddau mae rhieni ag anabledd dysgu yng Nghymru yn ymwneud â Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant ?.....17
4. Cwestiwn Ymchwil Dau: Beth ydy'r ffactorau sy'n gyrru patrymau ymglymiad rhieni ag anabledd dysgu gyda Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant ?.....21
5. Cwestiwn Ymchwil Tri: Pa dystiolaeth sydd yn bodoli o arferion da ar hyd taith Ymyriad Gwasanaethau Plant a chymorth helaethach i rieni ag anabledd dysgu?.....31
6. Casgliadau'r Astudiaeth.....42
7. Cyfyngiadau'r Astudiaeth.....44
8. Argymhellion.....45
9. Cyfeiriadau.....47
Atodiad 1: Nodweddion plentyn, rhiant ac atgyfeirio o fewn carfan y ffeiliau achos a ddadansoddwyd.....50
Atodiad 2: Cwestiynau cryno a ddefnyddiwyd mewn cyfweliadau gyda rhieni.....54
Atodiad 3: Cwestiynau cryno a ddefnyddiwyd gyda gweithwyr proffesiynol.....55
Atodiad 4: Astudiaethau Achos.....56

**Rhestr tablau**

Tabl 1: Ffactorau rhiant a nodir mewn gwahanol fathau o boblogaethau statudol plant ar draws Cymru yn ystod Mawrth 2018 ....22
Tabl 2: Pryderon allweddol ffeil achos am deuluoedd sy’n cael eu hasesu ar gyfer gofal a chymorth ....25
Tabl 3: Ffynhonnell Atgyfeiriadau a’r Rheswm dros Atgyfeirio ....53

**Cydnabyddiaeth**

Hoffai'r Sefydliad Gofal Cyhoeddus (IPC) fynegi ein diolch diffuant i bawb sydd wedi cefnogi'r prosiect hwn, yn arbennig y rhieni a rannodd eu profiadau gyda ni.
Hoffem hefyd ddiolch i gydweithwyr yn Llywodraeth Cymru a helpodd i lunio'r astudiaeth, ac i'r rhai hynny mewn ardaloedd awdurdodau lleol ledled Cymru a rannodd wybodaeth, a gymerodd ran mewn cyfweliad, neu a'n helpodd ni i wneud trefniadau i siarad ag eraill.

## Rhestr termau

| Acronym /gair allweddol | Diffiniad |
|---|---|
| ADHD | Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd |
| ASD | Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig |
| In utero | Cyn geni'r plentyn (tra yn y groth) |
| IQ | Cyniferydd Deallusrwydd, sy'n deillio o brofiad safonedig a luniwyd i asesu deallusrwydd pobl |
| PAM(S) | Llawlyfr Asesu Rhieni (asesiadau) a ddatblygwyd gan McGaw et al (1999) |
| PLO | Braslun o Gyfraith Gyhoeddus, sy'n datgan dyletswyddau awdurdodau pan fyddan nhw'n ystyried dwyn achos o flaen llys i ofyn am Orchymyn Gofal neu Orchymyn Goruchwylio, er enghraifft i amlinellu pryderon am blentyn a gwneud hynny yn ffurfiol. |

## Crynodeb Gweithredol

Mae Sefydliad Gofal Cyhoeddus (IPC) Prifysgol Oxford Brookes wedi cynnal yr astudiaeth cymysg ei dull ar gyfer Llywodraeth Cymru. Mae'r astudiaeth yn cynnwys cyfuniad o:

- Ymchwil cyflym ac adolygiad o'r arferion.
- Dulliau ymchwil meintiol yn cynnwys dadansoddiad o ddata Cymru gyfan am blant sydd wedi derbyn Cynllun Gofal a Chymorth a/neu sydd yn blant oedd yn derbyn gofal rhwng 2010 a 2018.
- Dulliau ymchwil ansoddol yn cynnwys casglu a dadansoddi data o sampl o ffeiliau achos plant, cyfweliadau gyda rhieni a chyfweliadau gyda rhanddeiliaid proffesiynol mewn pum awdurdod lleol ar draws Cymru.

Mae'n cynnig tystiolaeth ddangosol perthnasol i'r tri chwestiwn ymchwil allweddol canlynol:

1. **I ba raddau mae rhieni ag anabledd dysgu yng Nghymru yn ymwneud â Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant neu'n cael eu gor-gynrychioli o fewn y Gwasanaethau hynny?**

Does dim digon o wybodaeth ddibynadwy am nifer a chyfran y plant y mae eu rhieni ag anabledd dysgu yn ymwneud â'r Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant a/neu sy'n dod i mewn i ofal i seilio barn ar i ba raddau y maen nhw'n ymglymedig neu wedi cael eu gor-gynrychioli yn y boblogaeth hon. Un o'r prif resymau dros hyn ydy diffyg diffiniad a chanllawiau cenedlaethol digon clir i Wasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant allu canfod a chofnodi'r cyfryw anabledd (at ddibenion amcangyfrif y gwir gyfran). Fodd bynnag, cymhlethir y gallu i gofnodi'n gywir gan ystod o ffactorau eraill a allai fod yn bresennol yn cynnwys amharodrwydd rhiant i ddatgelu anabledd neu achosion gwahaniaethol o anawsterau rhiant i brosesu neu ymateb i wybodaeth, er enghraifft, hanes y rhiant ei hun o drawma, o gael ei g/cham-drin, o gael ei h/esgeuluso neu broblemau iechyd meddwl.

2. **Beth ydy'r ffactorau sy'n gyrru patrymau ymglymiad rhieni ag anabledd dysgu gyda Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant?**

Prin mai anabledd dysgu ydy'r unig bryder a'r unig reswm dros gyfeirio rhieni at Wasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant ac i blant dderbyn gofal. Mae'n anodd i nodi prif ffactor mewn achosion sydd fel arfer yn gymharol gymhleth, ond ymhlith ffactorau cyffredin eraill mae: nodweddion rhieni neu deuluol (a allai hefyd beri risgiau) yn cynnwys: rhieni yn cam-drin sylweddau, cam-drin domestig a/neu broblemau iechyd meddwl rhieni; amgylchiadau gwael yn y cartref; neu fod rhieni yn agored i gael eu cam-drin gan oedolion camdriniol yn y gymuned. Mewn nifer o achosion, mae gan blentyn sy'n destun pryder i'r gwasanaethau frawd neu chwaer neu hanner brawd neu chwaer hŷn eisoes yn derbyn gofal.

Fodd bynnag, mae'n glir bod arferion a systemau proffesiynol sy'n annog rhoi rhieni newydd ar y 'llwybr cyflym' i mewn i Wasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant neu drwy systemau llys yn gosod rhai rhieni dan anfantais o ran yr amser sydd ganddyn nhw i

brofi eu hunain yn rhieni effeithiol. Yn yr un modd, mae potensial i asesiadau o waith cymdeithasol heb fod yn rhai cytbwys a gofalus a/neu asesiadau arbenigol a gynhelir yn hwyr neu a gynhelir gan rywun di-brofiad i gyfyngu ar allu rhieni, o leiaf, i elwa o wasanaethau sydd wedi'u teilwra'n dda i ddiwallu eu hanghenion.

Ar wahân i wasanaethau cymorth wedi'u teilwra'n dda, mae gweithwyr cymorth allweddol (yn cynnwys gweithwyr cymdeithasol) ac aelodau'r teulu estynedig yn ffactorau gwytnwch clir yn ogystal â gwytnwch mewnol y rhieni eu hunain a'u symbyliad i fagu eu plant.

**3. Pa dystiolaeth sydd yn bodoli o arferion da ar hyd taith ymyriad Gwasanaethau Plant a chymorth ehangach i rieni ag anabledd dysgu?**

Er y ceir pocedi o arferion da gyda rhai rhieni ag anabledd dysgu yn cael cymorth effeithiol i ofalu am eu plant, mae llawer o le i wella; yn cynnwys y canlynol:

- ceisio nodi ac ystyried effaith anabledd dysgu ar allu rhieni i fagu plant mewn dull amserol;
- darparu gwybodaeth hygyrch ac o ansawdd da ar gyfer rhieni am yr hyn y gellir ei ddisgwyl gan Wasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant;
- cyfathrebu effeithiol parhaus rhwng gweithwyr cymdeithasol a rhieni;
- darparu cymorth i rieni sydd eu hunain yn agored i niwed (yn rhannol ond heb fod yn gyfangwbl oherwydd graddau eu hanabledd dysgu);
- argaeledd eiriolaeth;
- argaeledd y cymorth yn ddigon cynnar, yn cynnwys ystyried anghenion penodol rhieni ag anabledd dysgu sy'n disgwyl babi; ac hefyd
- sicrhau bod y cymorth a gynigir i rieni ag anabledd dysgu wedi'i deilwra'n ddigon da i ddiwallu eu hanghenion.

Mae canfyddiadau'r astudiaeth yn awgrymu y gellid gwneud mwy i wella dealltwriaeth genedlaethol o brofiad rhieni yn y maes hwn yn ogystal â'r gwasanaethau cymorth ar draws Cymru. Gwneir saith argymhelliad. Ceir y rhain yn llawn yn adran 8 o'r adroddiad llawn ond isod, ceir crynodeb:

1. Datblygu diffiniad cenedlaethol gwell o anabledd dysgu er mwyn cynorthwyo awdurdodau lleol i ganfod rhieni ag anabledd dysgu a chofnodi'r rhain yn gywir at ddibenion ystadegol.

2. Gofyn am ddatblygu a darparu yn genedlaethol neu yn lleol o wybodaeth hawdd ei darllen, hygyrch ar y pwnc o sut i fod yn rhiant a magu plant a/neu ymwneud â Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant a'r llys teulu.

3. Datblygu cyfarwyddyd cenedlaethol ac ystyried hyfforddiant gorfodol ar gyfer gweithwyr cymdeithasol ar:
    - sut i ganfod anabledd /anhawster dysgu rhiant mewn modd amserol ac effeithiol;
    - sut i gyfathrebu'n effeithiol gyda rhieni sydd ag anabledd neu anhawster dysgu;
    - pryd dylid cynnig eiriolaeth; ac hefyd
    - sut orau i gynnal asesiadau os oes gan y rhiant anabledd dysgu.

    Ystyried cynnwys gweithwyr proffesiynol eraill (help cynnar) yn y canllawiau er mwyn hwyluso sgrinio a threfnu cymorth cynharach a mwy effeithiol ar gyfer rhieni ag anabledd dysgu.

4. Annog Gwasanaethau Oedolion a Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant i ddatblygu protocolau ar y cyd i'w helpu i gydweithio.

5. Annog a chymell datblygu cymorth cynnar ar gyfer rhieni sydd efallai ag anabledd /anhawster dysgu ac sy'n hysbys o fod yn agored i niwed, er enghraifft oherwydd profiadau andwyol yn ystod eu plentyndod.

6. Hybu darpariaeth fwy cyson o wasanaethau cymorth wedi'u teilwra'n dda i ddiwallu anghenion rhieni ag anabledd/anhawster dysgu, boed y cymorth hwnnw yn cael ei gynnig yng nghartref y rhiant neu mewn lleoliad rhieni a babanod.

7. Hyrwyddo darpariaeth fwy cyson o gymorth ar gyfer oedolion ag anabledd / anhawster dysgu yn syth ar ôl symud plentyn o'u gofal gyda'r nod o'u helpu i ddelio â'r problemau sydd wedi effeithio ar eu gallu i fagu plant yn effeithiol a / neu i ofalu amdanyn nhw eu hunain yn effeithiol.

# 1. Rhagarweiniad

## 1.1 Rhesymeg dros y prosiect ymchwil a gomisiynwyd

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wella canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a nodi camau ataliol cynnar er mwyn cynorthwyo i ostwng y nifer o blant sy'n derbyn gofal.

Fel rhan o raglen waith 2018 y Llywodraeth, nododd Grŵp Ymgynghorol Gweinidogion ar gyfer Canlyniadau Plant ddiffyg gwybodaeth am faint y mae plant gyda rhieni ag anabledd dysgu yn ymwneud â thrafodion gofal ac am y rhesymau y gallen nhw fod yn ymwneud â thrafodion gofal.

Felly, comisiynodd Llywodraeth Cymru Sefydliad Gofal Cyhoeddus (IPC) ym Mhrifysgol Oxford Brookes i gynnal ymchwil arloesol i:

- **Sefydlu i ba raddau y mae rhieni ag anabledd dysgu yng Nghymru yn ymwneud â Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant neu'n eu derbyn** yn cynnwys rhieni plant yn ymwneud â thrafodion gofal neu sy'n cael eu symud o ofal uniongyrchol rhieni.
- **Sicrhau dealltwriaeth aml-bersbectif o'r ffactorau sy'n gyrru patrymau ymglymu** rhieni ag anabledd dysgu gyda Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant
- **Deall ymarfer effeithiol ac ymarfer llai effeithiol** er mwyn cynorthwyo i sefydlu agenda i wella pethau yn y maes hwn.

Rhagwelwyd y byddai canfyddiadau ac argymhellion y prosiect yn sail i ddatblygiad parhaus rhaglen Gwella Canlyniadau ar gyfer y Grŵp Ymgynghorol Gweinidogion Plant a'r Grŵp Trawsnewid Anabledd Dysgu sy'n ceisio atgyfnerthu gwasanaethau anabledd dysgu yn ehangach ar draws Cymru.

Ers i'r ymchwil gael ei gomisiynu, pwysleisiodd Prif Weinidog Cymru bod y nifer cynyddol o blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru yn gyffredinol yn faes â blaenoriaeth ar gyfer camau gweithredu. I fynd i'r afael â'r broblem hon, cynigiodd y Prif Weinidog y dylid cyflwyno targedau i ostwng y nifer o blant sy'n derbyn gofal ar draws amrediad o fesurau, yn cynnwys yn benodol i ostwng y nifer o blant sy'n derbyn gofal gyda rhieni ag anabledd dysgu.

Fel maes â blaenoriaeth Llywodraeth Cymru, y gobaith felly ydy y bydd canfyddiadau'r ymchwil yn helpu i ychwanegu at y sail tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg yng Nghymru am y gyfran o blant mewn gofal sydd â rhieni ag anabledd dysgu a'u hanghenion cymorth. Ceir hefyd ymrwymiad i ddefnyddio canfyddiadau ac argymhellion yr ymchwil yn sail i ddarpar bolisi a sicrhau bod mesurau casglu data cadarn yn cael eu sefydlu.

## 1.2 Polisi ac ymchwil sydd eisoes yn bodoli yn y maes hwn

Mae'n cael ei gydnabod yn helaeth bod mwy o ferched ag anabledd dysgu yn dod yn famau ac mae hyn o ganlyniad i newidiadau mewn polisi ac arfer gofal cymdeithasol o'r 1980au ymlaen tuag at ddarparu gwasanaeth a phenderfyniadau ar sail egwyddorion 'bywyd cyffredin' (Malouf et al, 2017; Hewitt et al, 2016; a Chronfa'r Brenin/The Kings Fund, 1980).

Fodd bynnag, profwyd yn anodd i sicrhau amcangyfrifon cywir o'r nifer o rieni actif gydag anableddau dysgu ym mhoblogaethau cyffredinol y DU (Stewart, 2017). Yn rhannol, problem ddiffinio ydy hon er y ceir consensws cynyddol ar ba ddiffiniad(au) y dylid defnyddio i ddisgrifio anabledd dysgu. Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio un diffiniad a gydnabyddir yn gyffredin at ddibenion casglu gwybodaeth ystadegol am anabledd dysgu rhiant yng nghyd-destun plant gyda Chynllun Gofal a Chymorth.

*"Nam ar swyddogaeth ddeallusol sy'n effeithio'n sylweddol ar eu datblygiad ac yn arwain at anawsterau i ddeall a defnyddio gwybodaeth, i ddysgu sgiliau newydd ac i lwyddo i fyw'n annibynnol"*

Mae hwn a diffiniadau eraill a ddefnyddir mewn polisi cyfredol ac mewn dogfennaeth canllawiau ymarfer yn cwmpasu pobl gydag amrediad eang o anableddau, heb fod yn gyfyngedig er enghraifft i IQ yn is na 70 (y credir sy'n effeithio ar tua dau y cant yn unig o'r boblogaeth).

Awgrymwyd yn y gorffennol gan ymchwilwyr yn y DU (er enghraifft Booth, 2005) bod plant i rieni ag anhawster dysgu yn fwy tebygol o dderbyn gofal o'i gymharu â phlant eraill mewn angen. Mae ymchwilwyr eraill wedi amcangyfrif bod rhwng 49 a 60 y cant o'r holl rieni ag anhawster neu anabledd dysgu yn colli'r gofal dros eu plant oherwydd aseswyd nad oedd safon eu gofal dros eu plant yn ddigonol (er enghraifft, Wilson et al, 2013). Mae eraill wedi awgrymu ymhellach efallai bod plant i rieni ag anabledd dysgu yn cael eu gor-gynrychioli yn y system ddiogelu plant (Cox, Kroese ac Evans, 2015), fel arfer oherwydd iddyn nhw gael eu hesgeuluso yn hytrach na ffurfiau eraill mwy 'bwriadol' o gam-drin (McConnell et al, 2000 a McConnell a Strike, 2002). Mae'n anodd cyffredinoli am boblogaeth gyfredol rhieni ag anabledd dysgu yng Nghymru ar sail canfyddiadau'r ymchwil hwn, gan bod y wybodaeth wedi dyddio ychydig a/neu bod y samplau atgyfeirio yn gymharol fach neu o fath arbennig (er enghraifft, cyfweliadau gyda chyfreithwyr neu samplau heb fod o'r DU).

Mae damcaniaethau hanesyddol a rhai mwy diweddar am y ffactorau posibl tu ôl i or-gynrychiolaeth rhieni ag anabledd dysgu ymhlith carfannau o blant sydd yn ymwneud â Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol wedi cynnwys y canlynol:

- **Rhagfynegydd allweddol esgeulustod ydy'r graddau y mae adnoddau, gwybodaeth, sgiliau a phrofiad y fam yn ddigonol i ddiwallu anghenion ei phlant** (Cleaver et al, 2007). Mae natur gymhleth a pharhaus esgeulustod yn ei gwneud hi'n broblem heriol ar nifer o lefelau – cysyniadol, ymarferol a threfniadol (Daniel et al, 2011; Gardner, 2016; Horwath, 2013; Tanner a Turney, 2003).

- **Ffactorau eraill sydd yn bresennol yn aml yn enwedig pan symudir plant oddi wrth rieni ag anabledd dysgu,** megis iechyd meddwl/ problemau iechyd corfforol; cam-drin sylweddau, teimlo'n ynysig, cam-drin domestig, ac oedolion eraill sydd â'u bryd ar gam-drin plant yn rhywiol yn targedu mamau ag anabledd dysgu (Cleaver et al, 2007).
- **Ffactorau gwahaniaethol megis anghymeradwyaeth gymdeithasol a phroffesiynol o feichiogrwydd merched ag anableddau dysgu** (Malouf, 2017); yr hyn a ddisgrifiwyd yn ddulliau 'or-frwdfrydig' o fynd ati i asesu risg yn cynnwys y rhagdybiaeth bod rhiant yn anghymwys (Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol, 1999); tan-fuddsoddi yn y math priodol o gymorth wedi'i deilwra ar gyfer rhieni ag anableddau dysgu (McGregor et al, 2017); a/neu'r awgrym bod rhaid i rieni ag anableddau dysgu gwrdd â meini prawf llymach na rhieni eraill i ddangos eu gallu i fagu plant (Tarleton, 2006).
- **Cyfathrebu sensitif annigonol a/neu ymarfer asesu annigonol gan weithwyr proffesiynol** yn cynnwys achlysuron lle daw'r anabledd dysgu i'r golwg yn gyntaf yn ystod trafodion gofal; neu wrth ddefnyddio adnoddau anaddas, heb eu haddasu er mwyn asesu'r gallu i fagu plant (Stewart, 2017).
- **Rhwystrau sefydliadol neu rai system gyfan** megis gwahanu timau anabledd oedolion a phlant a throthwy uchel cydredol ar gyfer timau oedolion; y pwysau ers cyflwyno'r PLO (Braslun o Gyfraith Gyhoeddus) i lunio cynllun sefydlogrwydd o fewn amserlen dynn; amrywiaethau ym mhenderfyniadau'r llys o ran rhieni ag anableddau dysgu a'u plant; a phwysau cyllidebol sy'n effeithio ar y gallu i ddarparu cymorth yn gynnar (er bod Cymru, yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 wedi ymrwymo'n gadarn i atal hyn).
- Yn naturiol, honnai'r **fframwaith statudol, cyfreithiol** mai'r flaenoriaeth oedd diogelu llesiant y plentyn a sicrhau sefydlogrwydd ar gyfer plant, er bod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 hefyd yn gofyn i gynghorau gynorthwyo rhieni i fagu eu plant lle bynnag fo'n bosibl. Mae angen i Gynghorau ddefnyddio prosesau da wrth wneud penderfyniadau, yn ôl gorchymyn llys teulu ac mae'n drawiadol yn hyn o beth bod Llywydd Adran Deulu Llysoedd Lloegr a Chymru yn 2018 wedi cymeradwyo'r Canllawiau Ymarfer Da diwygiedig ar Gydweithio gyda Rhieni ag Anabledd Dysgu (2016).
- **Lefelau uchel a gofnodwyd o ddrwgdybiaeth rhwng awdurdodau a rhieni ag anableddau dysgu**, ac anawsterau'r rhieni hyn i arddangos dangosyddion derbyniol o ymrwymiad i fagu eu plant, er enghraifft drwy gofio mynychu apwyntiadau neu drwy arddangos eu bod yn deall diben yr apwyntiadau (Ymchwil ar Waith, 2018).

Fodd bynnag, mae nifer o garfannau pwyso a grwpiau cymorth ynghyd â rhai ymchwilwyr yn credu, os cynigir cymorth personol yn gynharach, byddai llai o rieni ag anabledd dysgu yn cael eu cynnwys yn y system ddiogelu plant a llai o blant mewn gofal. Yn sicr, mae Canllawiau Ymarfer Da ar Gydweithio gyda Rhieni ag Anabledd Dysgu (Yr Adran Iechyd, 2016) a fabwysiadwyd gan y Llysoedd Teulu ac sy'n rheoli'r penderfyniadau gwaith cymdeithasol, yn cydnabod y gall llawer o rieni ag anableddau dysgu fod yn rhieni da, yn enwedig os byddan nhw'n cael cynnig cymorth positif. Mae'r canllawiau hyn, gyda chymorth corff o ymchwil yn cynnig pum nodwedd allweddol arferion da wrth weithio gyda rhieni ag anabledd dysgu:

1. **Gwybodaeth hygyrch a Chyfathrebu (clir)** yn cynnwys: defnyddio geiriau cyffredin, osgoi 'jargon' ac ysgrifennu'n 'fawr'. Rhoi ychydig o wybodaeth ar y tro, gan ddadelfennu gwybodaeth gymhleth neu dasgau yn sypiau bach.

2. **Gweithdrefnau atgyfeirio ac asesu, meini prawf cymhwyster a llwybrau clir a chydlynol.**

3. **Cymorth a luniwyd i ddiwallu anghenion rhieni** ag anableddau dysgu a'u plant yn cynnwys, er enghraifft: cymorth yn bennaf yn y cartref i fagu plant, yn cael ei atgyfnerthu yn gyson a/neu raglenni magu plant sy'n ddigon hyblyg i ddiwallu anghenion rhieni ag anableddau dysgu.

4. **Cynnig cymorth hirdymor lle bo angen** er bod rhai ymchwilwyr wedi pwysleisio'r angen am ymyriad cynnar yn cynnwys cyn geni plentyn lle bo'n briodol.

5. **Mynediad i eiriolaeth annibynnol** er enghraifft ar gyfer ac mewn cyfarfodydd pwysig.

## 1.3 Cynnwys yr adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys:

- Crynodeb o fethodoleg yr ymchwil
- Canfyddiadau allweddol yr ymchwil a drefnir yn ôl cwestiynau allweddol yr astudiaeth hon
- Casgliadau ac argymhellion yr astudiaeth
- Rhestr o gyfeiriadau ac atodiadau

# 2. Methodoleg yr Ymchwil

## 2.1 Rhagarweiniad

Mae'r dulliau ymchwil a ddefnyddiwyd i gyflenwi'r prosiect ymchwil hwn yn cynnwys cyfuniad o'r canlynol:

- Adolygiad cyflym o'r ymchwil a'r ymarfer.
- Dulliau ymchwil meintiol yn cynnwys dadansoddiad o ddata Cymru gyfan am blant sydd wedi derbyn Cynllun Gofal a Chymorth a /neu blant sydd wedi derbyn gofal rhwng 2010 a 2018.
- Dulliau ymchwil ansoddol yn cynnwys casglu a dadansoddi data o sampl o ffeiliau achos plant, cyfweliadau gyda rhieni a chyfweliadau gyda rhanddeiliaid proffesiynol mewn pum awdurdod lleol ar draws Cymru.

## 2.2 Gweithgareddau Cyfnod Un a

Er mwyn cyflwyno'r prosiect ymchwil, ysgrifennodd ymchwilwyr yn IPC at holl Benaethiaid Gwasanaethau Plant yng Nghymru i'w hysbysu am yr astudiaeth ymchwil a gofyn iddyn nhw gymryd rhan yn y prosiect. Dilynwyd hyn gan gyfres o gyfweliadau ffocws gyda staff perthnasol o fewn 12 o'r 22 awdurdod lleol am y canlynol:

- Sut y diffinnir anabledd dysgu a'i ddefnyddio'n lleol gan gyfeirio at rieni a magu plant.
- Sut caiff data ei gofnodi, yn enwedig at ddiben cwblhau ffurflenni gwybodaeth ystadegol am Wasanaethau Plant i'w dychwelyd at Lywodraeth Cymru.
- Pa adnoddau asesu a ddefnyddir yn gyfredol o ran rhieni ag anabledd dysgu.
- Pa gymorth penodol, os oes unrhyw gymorth, sydd ar gael yn lleol ar gyfer rhieni ag anabledd dysgu.

Yna, dadansoddwyd y setiau data cenedlaethol a gasglwyd yn gyson a'u cyhoeddi (yn gyfangwbl ddienw), gan gyfeirio'n benodol at blant yn meddu ar Gynllun Gofal a Chymorth a/neu blant sydd â rhiant ag anabledd dysgu a ddaeth i dderbyn gofal *(looked after)*.

Roedd ymchwilwyr hefyd yn awyddus i ystyried setiau data cenedlaethol eraill allai helpu i ganfod i ba raddau y gallai rhieni ag anabledd dysgu gael eu tan-gynrychioli neu gor-gynrychioli yng ngharfan cyffredinol plant yn meddu ar Gynllun Gofal a Chymorth neu'n derbyn gofal. Gan gofio hyn aeth ymchwilwyr ati i wneud y canlynol:

- Ystyried ystod o ffynonellau posibl perthnasol i boblogaeth gyfan o rieni neu boblogaeth benodol o rieni, yn enwedig rhieni newydd ag anabledd dysgu.
- Cysylltu ag ystod o randdeiliaid cenedlaethol allweddol i ystyried eu hamgyffred o argaeledd y data diweddaraf ar hyn, er enghraifft, o ran nifer yr achosion o rieni ag anabledd dysgu mewn teuluoedd sy'n derbyn rhyw fath o gymorth cynnar.

## 2.3 Gweithgareddau Cyfnod Dau

Yn ystod cyfnodau cynnar y rhaglen ymchwil, gwahoddwyd holl awdurdodau lleol ar draws Cymru i gymryd rhan mewn astudiaeth fwy trylwyr yn cynnwys: dadansoddi ffeiliau achos, cyfweliadau gyda rhieni a chyfweliadau gyda rhanddeiliaid proffesiynol. Cytunodd pum awdurdod lleol i gymryd rhan, yn cynrychioli amrywiaeth o fathau o awdurdod lleol (dinesig a gwledig, rhai llai a rhai mwy) a lleoliadau daearyddol.

### Dadansoddi Ffeil Achos

Gofynnwyd i'r awdurdodau lleol oedd yn cyfranogi i ddarparu rhestr o'r 20 achos plant oedd newydd eu cau yn cynnwys rhieni ag anabledd dysgu. Ymhob achos, darparwyd rhestr o lai nag 20 (rhwng 13 ac 17).

Archwiliwyd ffeiliau achos y plant gan ymchwilwyr oedd yn meddu ar brofiad sylweddol o gyflenwi ac arwain Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant ac hefyd profiad o brosiectau ymchwil o'r fath. Defnyddiwyd y cwestiynau ymchwil allweddol ac astudiaethau ymchwil yn y maes i ystyried y data ar ffeiliau electronig diweddar i ganfod y canlynol, er enghraifft:

- Nodweddion, hanes ac amgylchiadau teuluol rhieni ag anabledd dysgu cyn gweithredu gweithdrefnau diogelu plentyn neu weithredu gweithdrefnau gofal. Amlinellir y nodweddion hyn yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn .
- Nodweddion y plentyn (plant) allweddol oedd yn cael eu diogelu/ yn destun trafodion llys. Amlinellir y nodweddion hyn hefyd yn Atodiad 1.
- Natur y pryderon cyffredinol o ran diogelu a/neu'r rhesymau dros gynnig cymorth.
- A wnaeth ac i ba raddau wnaeth y rhiant neu'r teulu dderbyn cymorth cynnar.
- Ffactorau yn dylanwadu ar brosesau statudol gwneud penderfyniadau.
- I ba raddau oedd y dystiolaeth bod y gwaith gyda rhieni ag anabledd dysgu yn briodol, gan gyfeirio, er enghraifft at ansawdd y wybodaeth a roddwyd; ansawdd y cyfathrebu; i ba raddau y teilwriwyd y cymorth a gynigwyd i anghenion y rhiant a hyd a lled y mynediad i eiriolaeth.
- I ba raddau y defnyddiodd gweithwyr cymdeithasol ac aseswyr ddulliau 'addas i'r diben' o fynd ati ac adnoddau 'addas i'r diben' i asesu yn cynnwys asesu risg.
- I ba raddau yr adlewyrchwyd anabledd dysgu rhieni yn natblygiad, gweithrediad ac adolygiad o'r Cynllun Gofal a Chymorth.
- I ba raddau roedd y llwybr gofal (yn cynnwys elfennau asesu a chymorth yn enwedig) yn cynnwys unrhyw gysylltiad â thimoedd anabledd dysgu oedolion ac ansawdd unrhyw gymorth a luniwyd ar y cyd.
- Effaith y cymorth a ddarparwyd ar y teuluoedd.
- Y canlyniadau dymunol a hysbys a gyflawnwyd ar gyfer y plant dan sylw yn cynnwys penderfyniad(au) statudol neu lys.

Dadansoddwyd cyfanswm o 70 o ffeiliau achos yn cynnwys rhwng 13 ac 17 fesul pob awdurdod lleol. Cofnodwyd y data mewn fformat di-enw ar daenlen a dadansoddwyd y data wedi hynny gan ddefnyddio cwestiynau allweddol yr ymchwil.

Er bod y wybodaeth ar y ffeiliau achos yn gyffredinol ddigonol i ateb cwestiynau'r ymchwil, roedd rhai problemau wrth geisio cael mynediad i fathau arbennig o wybodaeth arbennig mewn rhai achosion yn enwedig i ddogfennaeth llys. Hefyd, roedd yn amhosibl i ymchwilwyr ddilysu i ba raddau roedd y rhestr o achosion ymhob un o'r samplau lleol yn cynnwys elfen o ddewis ymlaen llaw (yn hytrach nag, er enghraifft, yr 15-20 achos a gaewyd yn fwyaf diweddar). Fodd bynnag, roedd y sampl drwyddi draw yn ymddangos i ymchwilwyr ei bod yn cynnwys amrediad o deuluoedd, cyflwyniadau a chanlyniadau.

Yn olaf, mae cyfyngiadau hysbys i ddadansoddiad o ffeiliau achos ac mae hynny yn wir yma, yn benodol na ellir cofnodi ac ni chofnodir popeth sy'n berthnasol i ymarfer, asesu a gwneud penderfyniadau, er bod swm sylweddol o gofnodi achos ar ffeiliau gofal cymdeithasol y plant.

**Cyfweliadau gyda rhieni**

Ymhob un o'r pum awdurdod lleol, ceisiodd ymchwilwyr gynnal cyfweliad gyda rhieni gydag anabledd dysgu hysbys oedd â phrofiad diweddar o Wasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant, er enghraifft oherwydd bod eu plentyn (plant) yn destun Cynllun Gofal a Chymorth neu wedi dod i dderbyn gofal. Cynigiwyd hyd at 15 o gyfweliadau wyneb yn wyneb ond dim ond gydag wyth y llwyddwyd i'w cynnal. Cynhaliwyd y cyfweliadau dim ond gyda'r rhieni hynny oedd â'r galluedd amlwg i gytuno i gael eu cyfweld ac yn wir rhai a roddodd eu caniatâd deallus i gyfranogi fel hyn. Hwyluswyd caniatâd i gymryd rhan yn y lle cyntaf, fel sy'n briodol, drwy weithwyr (ar wahân i weithiwr cymdeithasol y plentyn) a /neu grwpiau cymorth y mae'r rhieni unigol dan sylw yn eu hadnabod. Bu ymchwilwyr yn ofalus iawn wrth gynnig barn am alluedd rhiant i roi caniatâd a darparu cymorth i rieni gymryd rhan, gan gyfeirio at ganllawiau cenedlaethol ar weithio gyda / cynnal cyfweliad rhieni ag anabledd dysgu a chyfeirio hefyd at gyfres o ddogfennau hawdd i'w darllen / dogfennau cymorth a gyd-gynhyrchwyd gyda sefydliad ag arbenigedd sylweddol a phrofiad mewn datblygu adnoddau o'r math.

Recordiwyd sain pob cyfweliad a'u dadansoddi'n thematig gan gyfeirio at gwestiynau allweddol ar gyfer yr ymchwil.

Ni chwiliwyd am gyfweledigion a fyddai'n cynrychioli holl boblogaeth rhieni oedd yn ymwneud â Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant, ond yn hytrach yn enghreifftiau o brofiadau rhieni gyda'r gwasanaethau hyn.

Roedd pob un o’r rhieni ag anabledd dysgu a gyfwelwyd ar gyfer yr ymchwil hwn mewn gwirionedd yn byw gyda’u plant. Roedd un rhiant yn disgwyl i’w phlentyn ddychwelyd adref yn fuan o gyfnod mewn gofal, gyda chymorth Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant. Roedd unig blentyn rhieni eraill wedi cael ei symud o’u gofal pan oedd yn chwe mis oed

- Roedd rhieni a gyfwelwyd rhwng 19 a 30 oed pan oedden nhw’n disgwyl eu plentyn cyntaf.
- Mae chwech o’r cyfranogwyr yn famau ac mae dau yn dadau.
- Mae gan y rhieni gyfanswm o rhwng un a saith o blant naturiol.

Ceir crynodeb o’r cwestiynau a ofynnwyd i rieni a gymerodd ran yn Atodiad 2.

**Cyfweliadau gyda rhanddeiliaid proffesiynol**

Dros gyfnod o un neu ddau ddiwrnod, a gyda chymorth pum awdurdod lleol oedd yn cymryd rhan, ceisiodd ymchwilwyr gyfweld â chymaint â phosib o weithwyr proffesiynol yn cynnwys amrediad o bobl sy’n gweithio gyda neu’n rheoli teuluoedd a/neu gynorthwyo rhieni ag anabledd dysgu. Cynhaliwyd y cyfweliadau hyn mewn sesiynau un-i un yn bennaf (wyneb yn wyneb a thros y ffôn) ond mewn rhai achosion, hwyluswyd sgwrs mewn man arbennig gyda grŵp o weithwyr proffesiynol yn cynnwys:

- Gweithwyr cymdeithasol a rheolwyr timoedd Gofal Cymdeithasol Plant.
- Gweithwyr proffesiynol allweddol eraill neu reolwyr gwasanaethau plant a ymgorfforir yn yr awdurdodau lleol, er enghraifft gweithwyr proffesiynol â chyfrifoldeb dros sicrhau ansawdd neu reolaeth gyffredinol dros wasanaethau diogelu plant, rheolwyr Swyddogion Adolygu Annibynnol (IRO)
- Gweithwyr proffesiynol neu reolwyr wedi’u lleoli mewn rhannau eraill o’r cyngor neu mewn sefydliadau perthnasol, er enghraifft, gwasanaethau Cyfreithiol, Tai, Iechyd Gwasanaethau Oedolion yn cynnwys Anabledd a/neu Gam-drin Sylweddau a’r Sector Gwirfoddol a Chymunedol.

Ceir crynodeb o’r cwestiynau a ofynnwyd mewn cyfweliad â gweithwyr proffesiynol yn Atodiad 3.

Cymerodd cyfanswm o 46 o weithwyr proffesiynol ran yn y cyfweliadau hyn

Gellir dweud bod y cyfweliadau yn gynrychioliadol o’r rhan fwyaf os nad y cyfan o’r sector sy’n ymwneud â chynorthwyo rhieni ag anabledd neu anhawster dysgu, er na chynrychiolwyd maes cymorth cynnar cystal â’r sector (gofal cymdeithasol) statudol

## 2.4 Moeseg

Gwnaed cyflwyniad pwyllgor moeseg llawn i bwyllgor Moeseg Ymchwil Oxford Brookes ym mis Awst 2018. Cymeradwywyd y cyflwyniad (FREC Reference 2018–12) cyn cychwyn ar yr elfen o ddadansoddi’n fwy manwl ac eang ddiwedd Ionawr 2019. Ymhlith elfennau allweddol y dull hwn o fynd at yr astudiaeth ymchwil hon a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru a’r Pwyllgor Moeseg roedd:

- O ran adolygu ffeiliau achos plant i'w dadansoddi'n fwy manwl ac eang ar gyfer yr ymchwil, ni cheisiodd y prosiect gael caniatâd rhieni i gymryd rhan, ond yn hytrach ddibynnu ar ddiddordeb y cyhoedd yn y canlyniadau o arwyddocâd cenedlaethol (GDPR Erthygl 6 (1), Erthygl 9(2), Erthygl 12 (rhybudd) ac Erthygl 35 (Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd) ac hefyd y Mesur Diogelu Data'r DU (drafft) Erthygl 89(1) (y diogelwch priodol) a Siediwl 1 (Rhan 2) (Prosesu Cofnodion Iechyd a Gofal Cymdeithasol); Siediwl 3 Paragraffau 10 ac 11 (parthed: plant sy'n cael eu cam-drin). O ran plant a ddaeth i dderbyn gofal neu a osodwyd mewn gofal, roedd y tîm ymchwil yn dibynnu hefyd ar ganiatâd Pennaeth Gwasanaethau Plant yn lleol (y rhiant corfforaethol) i adolygu ffeiliau achos y plant. Ymhob achos, ystyriwyd na fyddai preifatrwydd testun y ffeiliau yn cael ei beryglu'n sylweddol ac na fyddai'r datgelu cyfyngedig hwn yn achosi unrhyw niwed difrifol gan mai nifer gyfyngedig o ymchwilwyr profiadol wedi'u gwirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwirio fyddai'n gwneud y gwaith ac ni fyddai enwau / unrhyw ddeunydd personol arall a allai adnabod unrhywun yn cael eu cofnodi ar unrhyw gam. Ni chyrchwyd cofnodion iechyd na gwybodaeth gyfrinachol am gleifion yn ystod y gweithgaredd hwn nac ar unrhyw adeg yn ystod yr astudiaeth. Ystyriwyd mai mantais sylweddol y dull hwn o fynd ati a'r rhesymeg dros ddibynnu ar ddiddordeb y cyhoedd yn y canfyddiadau oedd cyflawni sampl lawer mwy cynrychioladol o achosion i'w cynnwys yn yr astudiaeth nag y gellir yn realistig ei gyflawni drwy ôl-weithredu i ofyn am ganiatâd y teuluoedd perthnasol.
- Rhoi sylw sylweddol i ystyried galluedd rhiant a chael caniatâd deallus i gymryd rhan ar bob cam o'u hymglymiad yn y prosiect ymchwil, gan gynnwys gyda chymorth deunyddiau hawdd eu darllen am yr ymchwil a'u gweld (Taflenni Gwybodaeth a Ffurflenni Caniatâd) a hwyluswyr dibynadwy y cyfweliadau a allai archwilio a chadarnhau galluedd a chaniatâd i gymryd rhan uniongyrchol gyda'r cyfranogwyr eu hunain cyn cynnwys ymwneud unrhyw ymchwilwyr yn uniongyrchol.

## 3. Cwestiwn Ymchwil Un: I ba raddau mae rhieni ag anabledd dysgu yng Nghymru yn ymwneud â Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant ?

**Negeseuon allweddol**

- Does dim digon o wybodaeth ddibynadwy am nifer a chyfran y plant y mae eu rhieni ag anabledd dysgu yn ymwneud â'r Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant a/neu sy'n dod i mewn i ofal i seilio barn ar i ba raddau y maen nhw'n ymglymedig neu wedi cael eu gor-gynrychioli yn y boblogaeth hon
- Un o'r prif resymau dros hyn ydy diffyg diffiniad a chanllawiau cenedlaethol sy'n ddigon clir i Wasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant allu canfod a chofnodi'r cyfryw anabledd (at ddibenion cofnodi'r ystadegau).
- Fodd bynnag, cymhlethir y gallu i gofnodi'n gywir ymhellach gan ystod o ffactorau eraill a allai fod yn bresennol yn cynnwys amharodrwydd rhiant i ddatgelu anabledd neu achosion gwahaniaethol o anawsterau rhiant i brosesau neu ymateb i wybodaeth, er enghraifft, hanes y rhiant ei hun o drawma, o gael ei g/cham-drin o gael ei h/esgeuluso neu broblemau iechyd meddwl

Mae'r ystadegau a gyhoeddwyd gan awdurdodau lleol yng Nghymru ar gyfer Llywodraeth Cymru (Stats Wales, 2019) yn awgrymu bod y gyfran o rieni ag anabledd dysgu ymhlith plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant wedi gostwng ychydig o rhwng wyth a naw y cant ar draws 2010 - 2016 hyd at bump y cant ar Fawrth 2018. Mae'r data cenedlaethol a gyhoeddwyd hefyd yn awgrymu bod y gyfran o rieni ag anabledd dysgu ymhlith plant gyda Chynllun Gofal a Chymorth yn helaethach (saith y cant ar Fawrth 2018) neu blant oedd yn derbyn gofal (11 y cant ar Fawrth 2018) wedi aros yr un peth fwy neu lai ers 2010.

Wrth gwrs mae'r tueddiadau hyn yn amrywio o awdurdod lleol i awdurdod lleol ac ystadegau rhai awdurdodau lleol yn llai ac yn fwy (yn allanolion) yn enwedig yn ystod y blynyddoedd rhwng 2010 – 2013. Fodd bynnag, erbyn Mawrth 2017, roedd canrannau y mwyafrif o'r awdurdodau lleol hyn yn gyson â'r canrannau cyfartalog cenedlaethol

Mae'n anodd sefydlu a ydy ac i ba raddau mae'r cyfrannau hyn o blant rhieni ag anabledd dysgu a gofnodwyd eu bod yn ymwneud â Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant yn or-gynrychiadol neu'n dan-gynrychiadol o'r rhai sydd yn y boblogaeth drwyddi draw. Y rheswm dros hyn ydy nad oes digon o set ddata hysbys yng Nghymru sy'n sefydlu cyfran y rhieni ag anabledd dysgu ymhlith poblogaeth gyffredinol rhieni neu, efallai yn fwy ystyrlon, poblogaeth rhieni gyda babanod newydd eu geni. Yn yr un modd, nid oes setiau data cenedlaethol hysbys yn nodi cyfran y rhieni ag anabledd dysgu yn cael cymorth cynnar megis darpariaeth iechyd a dargedwyd yn y gymuned, Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf neu Tîm o Amgylch y Teulu.

Hefyd, mae problem arall gyda'r data cenedlaethol sydd ar gael sef bod swyddogion perfformiad a chynrychiolwyr awdurdodau lleol a gyfwelwyd ar gyfer yr ymchwil hwn yn datgan ei fod yn sylfaenol annibynadwy at ddibenion amcangyfrif y cyfrannau o rieni ag anabledd dysgu ymhlith poblogaethau statudol allweddol plant. Yn rhannol, mae hyn oherwydd gallai fod gwahaniaeth cynnil neu hyd yn oed gwahaniaeth cymysg yn y rheswm dros gasglu'r data, yn cynnwys, nid yn unig at ddibenion ystadegol, ond hefyd ar gyfer nodi ffactorau y bydd rhaid eu hystyried er mwyn datblygu Cynllun Gofal a Chymorth. Ceir hefyd anghysonderau yn y modd, ar ba gam o'r daith drwy ofal a chymorth, a gan bwy y cofnodir anabledd dysgu. Mae cynrychiolwyr yr awdurdodau lleol yn cydnabod bod y diffiniad o anabledd dysgu a ddefnyddir i nodi'r ffactor hwn ar gyfer cofnodi ystadegau yn naturiol yn gofyn am ryw radd o ddehongli yn seiliedig ar y modd y mae'r nam yn effeithio ar allu unigolyn i weithredu yn hytrach na'r nam ei hun. Nododd rhai arweinwyr sector hefyd y gallai hyd yn oed fwy o rieni nag a riportiwyd i Lywodraeth Cymru at ddibenion ystadegau, ei chael hi'n anodd naill ai i:

- brosesu'r wybodaeth maen nhw'n ei derbyn am ofal a chymorth ar gyfer y plentyn neu am y system amddiffyn plant; neu
- deall a gweithredu ar y negeseuon addysgol gan weithwyr cymdeithasol neu staff cymorth teuluol o ran magu eu plant.

Gallai'r rhesymau dros hyn fod yn gysylltiedig ag anhawster dysgu sylfaenol (neu ryw ffurf ar fân anabledd dysgu) a/neu ffactorau megis cam-drin sylweddau, cam-drin domestig neu broblemau iechyd meddwl.  O ran yr arweinwyr sector a gyfwelwyd ar gychwyn y prosiect, mae'n anodd yn aml, yn ymarferol i fod yn glir pa un o'r ffactorau sy'n un arwyddocaol neu ba un sydd fwyaf arwyddocaol.

Mae dadansoddiad o'r ffeiliau achos a'r cyfweliadau a gynhaliwyd ar gyfer yr astudiaeth hon yn atgyfnerthu'r farn gyffredinol hon ac yn awgrymu ymhellach:

- **Y gallai fod yn anodd sefydlu anabledd neu anhawster dysgu unigolion** hyd yn oed ar draws taith sylweddol gofal a chymorth eu plentyn. Roedd y gweithwyr proffesiynol a gyfwelwyd yn dweud bod hyn weithiau yn deillio o ddymuniad rhiant i guddio'r anabledd neu'r anhawster (oherwydd ei bod/ ei fod yn ofni'r canlyniadau). Neu, efallai bod ymateb rhiant i bobl a sefyllfaoedd naill ai wedi'u haddasu i drawma neu gamdriniaeth yn eu plentyndod neu'n cael eu gyrru gan anghenion eu problemau iechyd meddwl neu gamddefnyddio sylweddau, a hynny'n ei gwneud hi'n anodd canfod gwraidd yr anhawster i brosesu neu ymateb i wybodaeth neu sefyllfaoedd.

> *Pryd mae anawsterau dysgu yn wneud pobl yn analluog? Beth ydy achos yr anabledd neu'r anhawster dysgu? Gallai problemau emosiynol neu esgeulustod effeithio yn ogystal â gweithredu gwybyddol craidd. Yn ymarferol, mae anghenion ac egwyddorion o sut i weithio gyda rhiant yn berthnasol i'r ddau* (arweinydd sector)

Roedd ffeil achos y garfan yr astudiaeth hon yn cynnwys dim ond 53 y cant o rieni yr oedd eu hanabledd/anhawster dysgu yn wybyddus i Wasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant ar adeg yr atgyfeirio. Roedd llawer o weithwyr cymdeithasol yn meddwl mai digon prin byddai nodi anabledd dysgu rhiant ar adeg yr atgyfeirio yn digwydd ac eithrio mewn amgylchiadau lle mae'r Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant ac Oedolion eisoes yn adnabod y rhiant. Pan atgyfeirir pobl at Wasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant gan sefydliadau eraill, awgrymodd y gweithwyr proffesiynol y gellir weithiau grybwyll anhawster cyfathrebu neu wybyddol (er enghraifft, bod rhiant yn 'cael pethau'n anodd') ond heb fanylu:

> *Mae pobl yn ei chael hi'n anodd siarad am hyn* (gweithiwr cymdeithasol)

- **Nodir bod rhieni â mân anabledd dysgu neu anhawster dysgu yn aml yn cael eu disgrifio fel rhieni ag anabledd dysgu at ddibenion cyflwyno ystadegau i Lywodraeth Cymru** (yn ogystal wrth gwrs â'r rhai hynny ag anabledd dysgu cymedrol neu ddwys). Gallai'r dull adnabod ddibynnu ar amrediad o ddulliau anffurfiol o fynd ati (yn cynnwys siarad â rhiant a/neu ddull ehangach o gasglu gwybodaeth gydag asiantaethau eraill) yn ogystal â dulliau mwy ffurfiol megis asesiad gwybyddol. Yn y sampl o ffeiliau achos, credwyd o'r holl wybodaeth oedd ar gael mai dim ond pedwar y cant o'r prif rieni a nodwyd bod ganddyn nhw anabledd dysgu oedd ag anabledd dysgu sylweddol. Credwyd mai 36 y cant oedd ag anabledd dysgu cymedrol, 41 y cant â mân anabledd dysgu ac 19 y cant ag anhawster dysgu.

- **Dydy lefel, effaith na goblygiadau anabledd neu anhawster dysgu rhiant ddim bob amser yn cael eu harchwilio'n dda nac yn ddigon cynnar yn ystod 'adeg cyfleus' yr ymyriad** i'r wybodaeth hon fod yn ddefnyddiol i yrru natur a dulliau cynnig y cymorth.

> *Os byddwch yn ei gadael hi'n hwyr mae pobl yn gorfod delio â phethau yn gyflym a chael eu rhuthro* (gweithiwr cymdeithasol)

Nid oedd llawer o'r rhieni yng ngharfan y ffeiliau achos oedd wedi eu hystyried yn meddu ar ryw ffurf o anabledd dysgu ar adeg eu hatgyfeirio at Wasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant wedi bod yn destun rhagor o archwilio am ffurf eu hanabledd/anhawster nac o ran effaith yr anabledd ar eu gallu i weithredu. Mewn 12/70 neu 17 y cant o achosion, ni enwyd yr anabledd neu'r anhawster ar adeg yr atgyfeirio a gellir dadlau na nodwyd yr anabledd yn glir erioed. Bron ymhob achos o'r fath, mae'n ymddangos bod anghenion dysgu rhiant/rhieni yn cael eu masgio i ryw raddau gan eu hanghenion eraill, yn arbennig eu camddefnydd o alcohol neu gyffuriau a/neu eu problemau iechyd meddwl, weithiau yn deillio y credir o'u profiad o blentyndod lle roedd cam-drin wedi digwydd.

Cytunodd y gweithwyr proffesiynol a gyfwelwyd bod nodi anabledd rhiant yn aml yn digwydd yn eitha hwyr yn y broses statudol, os o gwbl, yn cynnwys pan fydd rhieni yn gwrthod cael eu hasesu neu'n gyndyn neu rhy ofnus i rannu gwybodaeth neu oherwydd yr hinsawdd broffesiynol sydd ohoni sy'n disgwyl i asesiadau arbenigol gael eu comisiynu neu eu cynnal dim ond ar yr adeg pan ragwelir trafiodion neu gaiff trafodion eu cychwyn.

- **Mae llawer o asiantaethau, os nad pob un ohonyn nhw, yn cynnwys nifer o Wasanaethau Gofal Cymdeithasol Oedolion yn defnyddio diffiniadau llawer mwy tynn o anabledd dysgu** na Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant, yn cynnwys diffiniad ar gyfer derbyn asesiad neu wasanaeth cymorth ar sail anabledd dysgu.

  Dim ond mewn 15/70 (21 y cant) o achosion carfan y ffeiliau achos roedd aelod o Dîm (Anabledd Dysgu) Oedolion yn rhan o asesu anghenion rhiant a theulu. Roedd y gyfran o achosion lle roedd y Tîm Anabledd Dysgu wedi bod yn rhan o'r broses yn amrywio'n sylweddol o faes i faes o: sero y cant mewn dau awdurdod lleol i 19, 31, a 62 y cant yn y tri arall. Roedd tystiolaeth mewn rhai o'r achosion eraill bod gweithiwr cymdeithasol y plentyn wedi atgyfeirio unigolyn at y Tîm Anabledd Dysgu, ond gwrthodwyd yr atgyfeiriad, yn cynnwys yn aml ar sail bod IQ y rhiant yn uwch na 70 (yn uwch na 65 mewn rhai achosion).

  Mae cyfweliadau gydag arweinwyr proffesiynol a sector yn cadarnhau'r canfyddiad hwn, a llawer yn awgrymu bod y trothwy, ar gyfer cynnwys Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Oedolion mewn asesu neu i gynnig cymorth, yn parhau'n uchel iawn hyd yn oed ar ôl diwygiadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

  > *Dydy timau oedolion ddim yn cyfrannu, maen nhw'n ei ystyried yn fater i'r Gwasanaethau Plant. Hefyd, dydy eu model ddim yn addas i'n anghenion – maen nhw'n canolbwyntio ar eiriolaeth ar gyfer yr oedolyn, nid ar anghenion y teulu cyfan/y plentyn* (rheolwr tîm)
  >
  > *Ar gyfer asesiad Gwasanaethau Oedolion, byddai rhaid i'r rhiant ddod i mewn i'r swyddfa a chael prawf o IQ yn is na 70. Byddai gan y mwyafrif o'n rhieni anawsterau dysgu o ddefnyddio'r diffiniad hwn* (rheolwr tîm)

  Dim ond un maes oedd yn cymryd rhan yn elfennau manylach yr astudiaeth a ddechreuodd ganfod newid yn y modd y penderfynwyd ar y trothwyon hyn yn lleol:

  > *Mae ein timau oedolion yn symud i ddiagnosis o allu gweithredol o'i gymharu â diagnosis ar sail IQ, yn seiliedig ar sut mae anhawster neu anabledd yn effeithio ar allu unigolyn i weithredu* (rheolwr tîm)

# 4. Cwestiwn Ymchwil Dau: Beth ydy'r ffactorau sy'n gyrru patrymau ymglymiad rhieni ag anabledd dysgu gyda Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant ?

**Negeseuon allweddol:**

- Mae tystiolaeth o'r astudiaeth hon yn awgrymu mai anaml iawn y bydd anabledd dysgu y rhiant yn ffactor i yrru patrymau o ymglymiad gyda Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant. Ymhlith y ffactorau cyffredin eraill mae problemau iechyd meddwl rhiant, cam-drin sylweddau, cam-drin domestig, plant hŷn wedi cael eu symud a natur agored i niwed y rhiant i gael ei h/ecsbloetio neu ei ch/gam-drin yn gorfforol, ariannol a rhywiol.
- Mae'r elfen o ddadansoddi ffeiliau achos yn cynnig tystiolaeth amlwg bod y penderfyniadau y mae Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant yn briodol ond gallai rhai teuluoedd gyda rhieni ag anabledd dysgu gael eu rhoi ar y 'llwybr cyflym' i mewn i'r gwasanaethau hyn heb gynllun blaenorol o help cynnar a/neu i mewn i PLO neu drafodion llys. Yn yr un modd, efallai bod asesiadau rhai teuluoedd yn rhy frysiog a/neu gynnal asesiadau arbenigol yn rhy hwyr i helpu i arwain ar gyflenwi'r gwasanaeth.
- Yn y cyd-destun hwn, efallai bod yr amserlen gyfredol ynglŷn â gwneud penderfyniadau yn y llys am blant yn rhy fyr i rieni ag anabledd dysgu 'brofi' eu cymhwyster i fagu plant.

## 4.1. Canfyddiadau o ystadegau am holl blant gyda Chynllun Gofal a Chymorth

Mae ystadegau sydd newydd eu cyhoeddi (Stats Wales, 2019) gan awdurdodau lleol ar gyfer Llywodraeth Cymru yn awgrymu bod cyfran y plant gyda Chynllun Gofal a Chymorth, ar y Gofrestr Amddiffyn Plant neu Blant sy'n Derbyn Gofal a gofnodwyd bod ganddyn nhw riant ag anabledd dysgu yn sylweddol is na chyfran y plant hyn gyda nodweddion rhiant penodol eraill yn cynnwys: camddefnyddio sylweddau, problemau iechyd meddwl a cham-drin domestig.

Ystyrir y cyfrannau hyn yn Nhabl 1 isod:

**Tabl 1: Ffactorau rhiant a nodir yn ôl gwahanol fathau o boblogaethau statudol plant ar draws Cymru Mawrth 2018**

| Math o Gynllun Plant / Canlyniad Plant | Anabledd Dysgu | Cam-drin Sylweddau | Cam-drin Domestig | Salwch Meddwl | Salwch Corfforol |
|---|---|---|---|---|---|
| Plant â phob math o Gynllun Gofal a Chymorth | 7% | 28% | 26% | 32% | 11% |
| Plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant | 5% | 37% | 42% | 42% | 10% |
| Plant sy'n Derbyn Gofal | 11% | 36% | 29% | 37% | 12% |

Ffynhonnell: Ystadegau Cymru (Stats Wales) 2019

### 4.2. Canfyddiadau dadansoddiad o'r ffeiliau achos a'r cyfweliadau

Mae dadansoddiad o'r ffeiliau achos ar gyfer yr astudiaeth hon yn atgyfnerthu canfyddiad y dadansoddiad ystadegol (uchod). Er mai dangosol ydy'r canfyddiadau yn hytrach na rhai terfynol, maen nhw'n awgrymu nad anabledd dysgu rhiant neu anabledd dysgu yn unig sy'n gyrru patrymau atgyfeirio plant â rhieni ag anabledd dysgu. Yn aml iawn, gyrwyr allweddol atgyfeirio ydy; cam-drin domestig, plant hŷn wedi cael eu symud o ofal eu rhieni; rhiant yn camddefnyddio cyffuriau neu alcohol; problemau sylweddol iechyd meddwl rhiant; pryderon am unigedd cymdeithasol rhiant / natur agored i niwed rhiant; neu gyflwr tai. Os cafodd teuluoedd yn y garfan eu hatgyfeirio cyn geni babi neu cyn penblwydd cyntaf plentyn, y pryder pennaf a fynegwyd oedd bod y fam wedi'u hynysu ac yn agored i gael ei hecsbloetio'n rhywiol, yn ariannol a /neu'n gorfforol yn y gymuned neu gan ei phartner.

Ymhlith enghreifftiau o grynodeb yr ymchwilwyr o ddadansoddiad ffeiliau achos yr ymchwil o'r prif bryderon wrth atgyfeirio plant o dan un oed i Wasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant oedd y canlynol;

> *Mae gan Mam sydd â chwech o blant hŷn wedi'u mabwysiadu, hanes o bartneriaid yn ei cham-drin, trais domestig a phartneriaid yn camddefnyddio sylweddau. Mae Mam yn feichiog ers 24 wythnos.*
>
> *Galwyd yr Heddlu nifer o weithiau i'r cartref lle mae Mam feichiog yn byw gyda'i rhieni (sy'n gasglwyr a chelcwyr pob math o bethau). Mae'r galwadau'n gysylltiedig â pherthynas mam â dyn y mae'n wybyddus ei fod yn camddefnyddio cyffuriau ac sydd â hanes o droseddu yn cynnwys troseddau cam-drin domestig a rhywiol. Mae gan*

*Mam broblemau iechyd meddwl ac mae'n wybyddus i'r Heddlu ac i'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl yn lleol. Mae cyflwr y cartref yn wael iawn ac mae'r fydwraig yn pryderu bod Mam wedi colli apwyntiadau cyn geni.*

*Mae'r Heddlu yn poeni am gamdriniaeth domestig yn y cartref, mae Mam wedi ceisio gadael yr uned gofal arbennig gyda'i babi newydd anedig heb fod yn barod i gael ei ryddhau. Mae'n hysbys bod Mam wedi cal ei cham-drin a'i hesgeuluso pan oedd yn ifanc ac mae ei hymddygiad yn un heriol. Tybir bod y rhieni yn camddefnyddio cyffuriau ac alcohol. Ystyrir bod Mam yn agored i gael ei hecsbloetio'n rhywiol.*

*Bu Mam mewn gofal ei hunan ac mae wedi treulio amser ar y stryd, yn ddigartref ar ôl gadael gofal. Mae hi i fod i fyw mewn tŷ â chymorth ond dydy hi ddim yn ymgysylltu gyda'r gweithwyr yno. Credir bod Mam mewn perygl o gael ei hecsbloetio'n rhywiol ac ariannol. Does ganddi hi ddim rhwydweithiau cymorth ac mae ganddi broblemau iechyd meddwl.*

*Mae Tîm Anabledd dysgu Oedolion yn poeni bod Mam sy'n feichiog ers 16 wythnos ac mae'n yfed llawer o alcohol ac yn niweidio'i hunan (yn datgan ei bod am ddifa'i hun). Ar hyn o bryd mae'n byw yng nghartref teulu ei chariad.*

*Pryderon am gyflwr gwael cartref, plentyn wedi'i eni cyn ei amser gydag anghenion iechyd corfforol. Mae gan Dad hanes o gael ei gam-drin a'i esgeuluso, â mân anabledd dysgu ac arferion heriol. Cymerwyd ei blentyn cyntaf gyda phartner arall i mewn i ofal, mae pryderon am ei ymddygiad sy'n tra-arglwyddiaethu a chamddefnyddio alcohol ac am gyflwr brwnt y cartref.*

*Pryderon am fod Mam wedi cael ei hanfon i ysbyty meddwl o dan Ddeddf Iechyd Meddwl tra'n feichiog. Mae gan Mam Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig ac yn isel ei hysbryd. Rhyddhawyd Mam i ofal gwasanaethau iechyd meddwl cymunedol ac yn byw gyda thad y plentyn.*

*Mam feichiog sydd wedi symud i'r ardal yn ddiweddar gyda hanes o iselder a phryder. Mae saith plentyn hŷn wedi cael eu symud o ofal Mam, bu farw un plentyn a symudwyd y chwe phlentyn arall ar eu genedigaeth.*

Ar gyfer plant hŷn sy'n byw gyda'u rhiant/rhieni naturiol, roedd y rhesymau dros atgyfeirio a gofnodwyd yn fwy cymysg, yn cynnwys y cyfan o'r uchod ond yn ychwanegol, ymddygiad heriol plentyn neu anawsterau iechyd emosiynol sylweddol plentyn sy'n effeithio ar ei g/allu i weithredu gartref ac yn yr ysgol; a/neu bryderon penodol am honiadau o esgeulustod neu gamdriniaeth. Ymhlith enghreifftiau o grynodeb o'r prif bryderon ar adeg atgyfeirio plant blwydd oed neu fwy a wnaed gan ymchwilwyr tra'n dadansoddi'r ffeiliau achos mae:

*Ysgol yn pryderu na all Mam ymdopi gyda dau blentyn; un ohonyn nhw ag anabledd dysgu a'r llall ag ASD / ADHD. Pryderon ynglŷn â phroblemau cynyddol am gam-drin domestig yn y cartref (plentyn ar y fam) a phlentyn ddim yn mynychu'r ysgol /gwersi yn rheolaidd. Pryderu bod Mam yn dibynnu ar weithiwr o'r sector gwirfoddol er mwyn gallu ymdopi.*

*Partner Mam yn dechrau malu a distrywio'r cartref. Yr heddlu'n cael y fflat mewn cyflwr ofnadwy a llanast dros bob man. Partner Mam yn honni bod Mam wedi ymosod arno o flaen y plentyn, nifer o ymosodiadau blaenorol. Mae partner Mam wedi prynu crac cocên a'i ysmygu a'r plentyn yn yr ystafell. Daeth yr heddlu o hyd i bibellau a chyfarpar yn y cartref. Galwyd yr heddlu nifer o weithiau i'r fflat yn ystod yr wythnosau diweddar.*

*Yr Heddlu yn pryderu bod tad y plant wedi ymosod yn rhywiol ar blant eraill y teulu. Dydy'r Fam hon ddim yn credu'r honiadau ac efallai na fydd yn amddiffyn y plant.*

*Ymwelydd iechyd yn pryderu am gyflwr y cartref yn cynnwys ysmygu parhaus yn y tŷ a Mam a Dad ddim yn ymateb i gyngor sylfaenol ar fagu plant na chymorth magu plant, trefn a ffiniau a chyflwr y cartref.*

*Pryderon bod y plentyn ifanc hwn wedi cael ei gam-drin gorfforol. Hyn yng nghyd-destun Cynllun Gofal a Chymorth diweddar oherwydd pryderon am esgeulustod ac anallu Mam i sefydlu ffiniau a threfn a diogelwch ar gyfer y plant.*

*Mam yn mynegi pryderon am ymddygiad y bechgyn yn eu cartref, anhawster i reoli ymddygiad heriol, maen nhw mor ymosodol ar Mam*

*Pryderon am gyflyrau afiach ac anniogel yn y tŷ, Mam yn ei chael hi'n anodd i reoli tri o blant ers i'w mam ei hun farw, colli ysgol, llau pen.*

*Plentyn yn datgelu i'r ysgol bod ofn arni hi. Dad yn bwrw Mam ac yn ei galw'n ddiwerth, plentyn yn ceisio dod rhyngddyn nhw, Dad yn yfed bob nos.*

Yn yr un modd doedd asesiad cynnar ôl-atgyfeirio gweithiwr cymdeithasol bron byth yn ymwneud ag anabledd dysgu rhiant yn unig, ond yn hytrach ag ystod o bryderon yn cynnwys y rhai a amlinellir yn Nhabl 2 isod:

**Tabl 2: Pryderon allweddol ffeiliau achos am deuluoedd ar adeg eu hasesu ar gyfer gofal a chymorth**

| **Maes Pryder** | **Y nifer a'r % o achosion lle roedd hyn yn fater allweddol** | **Nifer a % yr achosion lle roedd y mater hwn yn aneglur** | **Nifer a % yr achosion lle nad oedd hyn yn fater allweddol** |
|---|---:|---:|---:|
| Anallu rhiant i wneud tasgau craidd magu plant | 41/70 (**59%**) | 17/70 (24%) | 12/70 (17%) |
| Anallu rhiant i ddeall neu brosesu gwybodaeth | 42/70 (**60%**) | 20/70 (29%) | 8/70 (11%) |
| Rhiant yn agored i gael ei g/cham-drin gan oedolion | 36/70 (**51%**) | 17/70 (24%) | 17/70 (24%) |
| Cam-drin domestig | 30/70 (**43%**) | 9/70 (13%) | 31/70 (44%) |
| Problemau iechyd meddwl rhiant | 46/70 (**66%**) | 11/70 (16%) | 13/70 (19%) |
| Rhiant yn camddefnyddio alcohol neu gyffuriau | 26/70 (**37%**) | 4/70 (6%) | 40/70 (57%) |
| Plentyn yn cael ei esgeuluso neu mewn perygl o gael ei esgeuluso | 58/70 (**83%**) | 2/70 (3%) | 10/70 (14%) |
| Cam-drin plentyn yn gorfforol neu mewn perygl o gael ei gam-drin yn gorfforol | 23/70 (**33%**) | 16/70 (23%) | 31/70 (44%) |
| Cam-drin plentyn yn rhywiol neu mewn perygl o gael ei gam-drin yn rhywiol | 10/70 (**14%**) | 16/70 (23%) | 44/70 (63%) |
| Cam-drin plentyn yn emosiynol neu mewn perygl o gael ei gam-drin yn emosiynol | 39/70 (**56%**) | 18/70 (26%) | 13/70 (19%) |

Roedd y mater a barodd y pryder mwyaf sylweddol ar wahân i'r anallu i gynnal tasgau craidd magu plant neu ddeall a phrosesu gwybodaeth, problemau iechyd meddwl, yn bodoli ar y cyd â cham-drin domestig mewn 19/70 (27 y cant) o'r holl achosion yn y garfan. Mewn 12/70 (17 y cant) o achosion, roedd y tri mater (iechyd meddwl rhiant, cam-drin domestig a chamddefnyddio cyffuriau neu alcohol ) yn bresennol a thybir ar y pryd ei bod yn broblem ar adeg yr asesiad statudol.

Mewn dim ond 4/32 o achosion, lle mynegwyd pryderon am anallu rhiant i wneud tasgau craidd magu plant a/neu ddeall neu brosesu gwybodaeth, yr oedd rhain yn bodoli ar eu pennau eu hunain heb fod gyda ffactorau allweddol eraill rhiant sy'n hysbys eu bod yn cynyddu risgiau i blant (Cleaver et al, 2011) h.y. cam-drin domestig, camddefnyddio alcohol neu gyffuriau a/neu broblemau iechyd meddwl.

Er nad yw efallai'n gyrru pryderon a phenderfyniadau cychwynnol ôl-atgyfeirio gweithiwr cymdeithasol yn eu blaen, mae'n werth nodi **ei bod yn hysbys bod gan lawer o'r plant** yng ngharfan y ffeiliau achos **frawd neu chwaer neu hanner brawd neu chwaer mewn gofal ar adeg yr asesiad**. Roedd gan 37 y cant (26/70) o'r plant yng ngharfan y ffeiliau achos rhwng un neu wyth brawd neu chwaer hŷn neu hanner brawd neu chwaer oedd eisoes yn byw ar wahân i'w prif ofalwr, llawer ohonyn nhw wedi cael ei derbyn i ofal. Mewn cyfran fwy hyd yn oed, (bron hanner) o achosion, atgyfeiriwyd plant i Ofal Cymdeithasol Plant cyn eu geni neu yn fuan ar ôl cael eu geni, roedd plant eraill y teulu wedi bod ar Gofrestr Amddiffyn Plant oedd wedi cael eu symud o ofal eu rhieni.

Nododd yr ymchwil ffactorau eraill ar wahân i'r rhieni eu hunain a allai yrru patrymau ymglymiad rhieni ag anabledd dysgu gyda Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant.

1. Mae dadansoddiad o'r ffeiliau achos a'r cyfweliadau gyda gweithwyr proffesiynol yn awgrymu y gallai **rhai o'r rhai hynny sy'n rhieni am y tro cyntaf ac sydd ag anabledd / anhawster dysgu gael eu rhoi ar y 'llwybr cyflym' i mewn i Ofal Cymdeithasol Plant** heb fod wedi cael unrhyw ffurf arall o help cynnar penodol.

   Er y gallai rhai o'r gyrwyr allweddol ar gyfer atgyfeirio (yn enwedig natur agored rhiant i gamdriniaeth ar y cyd ag anabledd dysgu) egluro i ryw raddau y broses hon o roi pobl ar y llwybr cyflym, mae'n dal yn amlwg mai dim ond 2/15 o'r rhai sy'n rhieni am y trio cyntaf, yn ffeiliau achos y garfan, sydd wedi derbyn cynllun sylweddol blaenorol o help cynnar penodol.
   Roedd y gweithwyr proffesiynol a gyfwelwyd ar gyfer yr astudiaeth hon yn sylweddoli bod rhoi unigolion ar y llwybr cyflym hwn yn digwydd weithiau, er oherwydd rhesymau sy'n ymwneud mewn theori â diogelu lles y rhiant (er enghraifft i gynnig mynediad iddyn nhw i eiriolaeth) neu oherwydd bod gweithwyr proffesiynol yn y

gymuned yn credu mai Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant ddylai fod ‘yn gyfrifol' am yr achosion hyn.

> *Mae gwasanaethu iechyd yn mynd yn nerfus ac yn atgyfeirio teuluoedd yn gynnar, yna gallan nhw gael eu rhoi ar y llwybr cyflym (i mewn i wasanaethau cymdeithasol a llys)* (rheolwr tîm )

Disgrifiodd rhieni a gyfwelwyd yn fyw iawn effaith rhai dulliau o roi teuluoedd ar y llwybr cyflym, yn enwedig lle gallai hyn darfu ar y bondio rhwng rhiant a phlentyn yn y dyddiau a’r wythnosau cyntaf ar ôl y geni:

> *Y rhan anodd oedd pan aeth y Gwasanaethau Cymdeithasol â hi i ofal maeth a ches i mo'i gweld hi o’r Dydd Gwener tan fore Dydd Llun* (rhiant)
>
> *Ron i’n meddwl na ddylwn i deimlo’n rhy agos ati …rhag ofn y bydden nhw’n ei chymryd oddi arna i* (rhiant)

Disgrifiodd cyfran gymharol fawr o rieni yn ein sampl o gyfweliadau (bron pob un ohonyn nhw’n dal i ofalu am eu plentyn /plant) sut cawson nhw help penodol cynnar cyn cael eu hatgyfeirio at Wasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant ac mewn llawer o achosion croesawyd hyn. Yn aml roedden nhw’n cael cymorth eu teulu estynedig yn eu cartref yn ystod y beichiogrwydd ac yn ystod yr wythnosau a’r misoedd cyntaf ar ôl y geni, weithiau o ganlyniadau i gyfarwyddiadau llys. Doedd y cymorth hwn ddim heb ei gymhlethdodau, yn cynnwys er enghraifft y teimlad mai’r teulu estynedig oedd â’r gofal dros y plentyn y gofal dros y plentyn. Fodd bynnag, cafodd hanner y rhieni hefyd bod y Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant yn cael eu cynnwys y naill ai yn ystod y beichiogrwydd neu’n fuan ar ôl i’w babi gael ei eni. Roedd un rhiant o leiaf yn meddwl y byddai wedi bod yn well i gael y cymorth yn gynt, yn benodol er mwyn gwella o brofiadau andwyol ei phlentyndod, cyn dod yn rhiant.

2. **Gall y dull y cynhelir asesiadau** (gan weithwyr cymdeithasol ac eraill) hefyd yn rhesymegol yrru canlyniadau plentyn a theulu i ryw raddau. Felly, mae’n amlwg bod mwyafrif (51/66 neu 77 y cant) o’r teuluoedd yng ngharfan y ffeiliau achos lle roedd yn bosibl barnu, yn cael eu hystyried gan ymchwilwyr yr astudiaeth eu bod wedi derbyn asesiad o ansawdd da gan y gweithiwr cymdeithasol. Roedd lleiafrif (15/66 neu 23 y cant) yn ystyried bod yr asesiad wedi cael ei danseilio’n sylweddol a’r prif faterion a feirniadwyd oedd bod yr asesiad neu’n broses asesu:

- Wedi methu â threulio digon o amser gyda’r teulu i gasglu gwybodaeth ddigonol am eu hamgylchiadau, eu cryfderau a’u hanghenion.
- Yn fwy beirniadol, llai cytbwys na’r disgwyl (wedi methu ag ystyried cryfderau rhiant yn ogystal ag anghenion neu bryderon).
- Yn ffocysu ar un agwedd o angen rhiant megis problemau iechyd meddwl yn unig yn hytrach nag yng nghyd-destun anghenion helaethach y rhiant/y teulu a allai hefyd gynnwys peth anabledd / anhawster dysgu.

- Ar y cyfan, yn dibynnu gormod ar wybodaeth o’r gorffennol (er enghraifft yn gysylltiedig â gofal blaenorol rhiant dros blentyn).

- Yn anwybyddu persbectif rhieni am eu sefyllfa, eu cryfderau a’r pryderon a fynegwyd.

Cynhaliwyd asesiadau mwy arbenigol mewn mwyafrif (54/70 neu 77 y cant) o achosion. Yn y mwyafrif o achosion, asesiad Llawlyfr/s Asesu Rhianta (PAMS) oedd hyn (mewn 24/70 o achosion) neu gyfuniad o PAMS ac asesiad gwybyddol / seicolegol (mewn 15/70 o achosion). Fel arfer gweithiwr cymdeithasol fyddai’n cynnal asesiad PAMS, ond gweithiwr cymdeithasol nad oedd yn weithiwr a benodwyd gan y cyngor ar gyfer y plentyn neu weithiwr cymdeithasol cwbl annibynnol. Mewn 8/70 o’r 11 y cant o achosion, dim ond asesiad gwybyddol/seicolegol a gynhaliwyd (a elwir weithiau’n asesiad galluedd), fel arfer gan glinigwr annibynnol o ran un neu'r ddau riant. Mewn lleiafrif bychan o achosion, atgyfeiriwyd un neu’r ddau riant i’r tîm Oedolion (Anabledd Dysgu) o fewn y cyngor ar gyfer asesiad arbenigol o’u hanghenion. Doedd dim patrwm amlwg ar draws yr awdurdodau lleol o ran eu defnydd o'r gwahanol fathau hyn o asesu. Fodd bynnag:

- Mewn nifer o achosion ar draws pob awdurdod lleol, mae’n ymddangos i’r asesiadau arbenigol hyn gael eu comisiynu'n gymharol hwyr yn yr ymyriad iddyn nhw fod o lawer o ddefnydd i gyfeirio natur y cymorth, er enghraifft, o fewn trafodion llys neu o ganlyniad i orchymyn llys o fewn trafodion gofal.
- Mewn rhai awdurdodau lleol, roedd cyfran fwy o achosion yn cynnwys naill ai asesiad PAMS neu asesiad gwybyddol/seicolegol (yn hytrach na’r ddau).

Roedd y gweithwyr proffesiynol a gyfwelwyd ar gyfer yr astudiaeth hon yn cydnabod mai PAMS oedd yr adnodd arferol a ddefnyddir i asesu gallu rhieni ag anabledd dysgu i fagu plant. Fodd bynnag, adroddir mai prin y defnyddir yr adnodd hwn cyn y cyfnod Braslun o Gyfraith Gyhoeddus (PLO) o leiaf, a hyd yn oed ar ddechrau trafodion llys. Disgrifiodd rhai a gyfwelwyd hefyd eu bod wedi eu rhoi dan bwysau gan lys teulu i ymgymryd ag asesiad PAMS

Cafwyd gwahanol farn ymhlith uwch arweinwyr sector a gweithwyr proffesiynol am i ba raddau mae asesiad PAMS yn ddefnyddiol. Roedd llawer o uwch ymarferwr yn meddwl i ddefnyddioldeb yr adnodd gael ei werthfawrogi'n fwy wrth gael ei ategu gyda sgiliau da ymarferwyr, yn enwedig wrth gyfathrebu’n effeithiol, gyda’r teulu. Roedd eraill yn credu nad oedd PAMS gymaint o gymorth â hynny os oedd risgiau neu ffactorau eraill i’w hystyried, megis problemau meddwl neu gam-drin sylweddau.

> *Mae PAMS yn adnodd da ond yr hyn sy'n bwysig ydy'r modd y mae'r ymarferydd yn ei ddefnyddio* (rheolwr tîm)

> *Mae'r Llysoedd yn hoffi PAMS, ond mae'n ychydig fel un adnodd i ffitio pawb. Tybed pam na chawson ni fwy o flaengaredd yn y maes hwn?* (arweinydd sector)

Er y cydnabyddir bod nifer o agweddau positif i adnodd PAMS, y brif feirniadaeth ydy mai adnodd a luniwyd yn wreiddiol i'w ddefnyddio yn ystod cyfnod cynnar ymyriad oedd PAMS i fod yn sail i'r gwasanaeth a fyddai'n cael ei gynnig, mae nawr yn cael ei ddefnyddio'n gynyddol i asesu a ddylai plentyn aros yn y cartref gyda'i rieni yng nghyd-destun trafodion llys.

Roedd llawer o'r gweithwyr proffesiynol a gyfwelwyd yn cydnabod y byddai rhieni yn debygol o ystyried y mathau hyn o asesu arbenigol yn:

- Ymwthiol, yn enwedig os nad ydyn nhw'n llawn ddeall y pryderon
- Brawychus
- Blinderus.
- Llawn strès.

Weithiau, disgrifiai rhieni a gyfwelwyd ar gyfer yr ymchwil hwn y profiad o gael eu hasesu yn union fel hyn a bod yr effaith arnyn nhw yn un negyddol:

> *Arhoses i yn y lleoliad mam a'i phlentyn ac yna daeth X i'r lleoliad mam a'i phlentyn, chi'n gwybod, a fy ngwylio i, beth ron i'n ei wneud a sut ron i'n newid a rhoi bath i'r babi a sut ron i'n chwarae a chyfathrebu gyda hi a sut roedd fy merch yn ymateb i fy nghyfathrebu i* (rhiant)

Mae'n drawiadol bod llawer o'r plant yn y dadansoddiad o'r ffeiliau achos yr oedd eu canlyniadau yn weddol glir (36/68 neu 53 y cant) wedi cael eu cynorthwyo gan Gynllun Gofal a Chymorth i barhau i fyw gyda'u rhieni, naill ai yng nghartref eu rhieni (46 y cant neu 31/68) neu gyda'u teulu estynedig (7 y cant neu 5/68). Roedd hi'n ymddangos bod penderfyniadau a wneir gan Wasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant ar adegau allweddol yr achos ar ôl yr atgyfeirio perthnasol yn briodol yn y rhan fwyaf o achosion. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion (7/70 neu 10 y cant), mae'n ymddangos i achos gael ei uwch-gyfeirio naill ai i'r Braslun o Gyfraith Gyhoeddus (PLO) neu i Lys neu at symud y plentyn o ofal rhiant/rhieni yn gymharol gyflym o ystyried yr holl amgylchiadau. Roedd llawer os nad y cyfan o'r plant yn yr achosion hyn o dan 1 oed, heb frawd neu chwaer neu hanner brawd a chwaer mewn gofal a heb Gynlluniau Amddiffyn Plant blaenorol.

Ni chafodd ymchwilwyr unrhyw enghreifftiau clir yng ngharfan y ffeiliau achos o achlysuron lle roedd plant (a'u rhieni) wedi bod yn ymwneud yn ddiangen â Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant a/neu ryw fath o ymyriad statudol.

Mewn achosion lle roedd plant yn cael eu symud i ofal, roedd penderfyniadau'r Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant a/neu'r llys yn ymddangos yn rhesymol o ystyried yr holl amgylchiadau ar adeg y penderfynu.

Fodd bynnag, weithiau disgrifiodd gweithwyr proffesiynol sut gallai'r llysoedd neu system y llysoedd (yn enwedig yr amser sydd ei angen ar gyfer gwneud penderfyniadau) gael effaith sylweddol ar faint o amser sydd gan rhieni i 'brofi' eu gallu i fagu plant.

# 5. Cwestiwn Ymchwil Tri: Pa dystiolaeth sydd yn bodoli o arferion da ar hyd taith Ymyriad Gwasanaethau Plant a chymorth helaethach i rieni ag anabledd dysgu?

## Negeseuon allweddol:

Er y nodwyd ychydig o arferion da ac effeithiol yn yr astudiaeth hon. Mae hefyd yn cynnig tystiolaeth ddangosol o gyfyngiadau helaeth yn yr ymarfer gyda rieni ag anabledd dysgu sydd wedi dod i gysylltiad â Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant yng Nghymru, yn cynnwys: argaeledd cyfyng iawn o wybodaeth hygyrch ar gyfer rhieni am yr hyn fydd yn digwydd a pham; cyfyngiadau yn y cyfathrebu rhwng gweithiwr cymdeithasol a rhiant yn cynnwys ymarfer o 'gadw'r rhiant hyd braich'; argaeledd cyfyng eiriolaeth mewn nifer o feysydd; cymorth cyfyngedig gan Wasanaethau Gofal Cymdeithasol Oedolion a diffyg ystyried breguster rhiant i benderfynu cymhwyster ar gyfer y gwasanaethau hyn; oedi wrth drefnu asesiadau arbenigol a chymorth; cymorth nad yw bob amser wedi ei deilwrio'n addas i anghenion rhiant ag anabledd / anhawster dysgu; a chymorth cyfyngedig ar gyfer oedolion agored i newid yn eu rhinwedd eu hunain, yn arbennig i hybu cysylltiadau iach neu ar ôl i blentyn gael ei symud o'u gofal.

Ceir astudiaethau achos sy'n cynrychioli cryfderau a chyfyngiadau ar waith a ganfuwyd yn y dadansoddiad o'r ffeiliau achos yn Atodiad 4 yr adroddiad hwn.

### 5.1 Tystiolaeth o Arferion Da

Mewn mwyafrif (45/70 neu 64 y cant) o'r achosion yng ngharfan ein ffeiliau achos cafwyd **tystiolaeth bod gweithiwr cymdeithasol wedi cyfathrebu'n effeithiol gyda** rhiant ag anabledd / anhawster dysgu ar wahanol gyfnodau yn y broses statudol, yn cynnwys yr hyn o fyddai'n digwydd a'r hyn roedd angen i'r rhiant / rhieni ei wneud a pham (er, weithiau, y cafodd y rhiant /rhieni anhawster o hyd i ddeall beth neu pam).

Nodwedd allweddol y cyfathrebu effeithiol oedd cymryd digon o amser neu wneud digon o amser gyda'r rhiant i ddisgrifio yn bersonol beth oedd y mater(ion) allweddol neu faes(meysydd) pryder a'r hyn fyddai'n digwydd.

Yr hyn roedd y bobl a gyfwelwyd ar gyfer yr astudiaeth hon yn ei werthfawrogi:

- Gweithwyr cymdeithasol oedd yn deall pam na fyddai rhieni ddim yn hollol onest ar y cychwyn (oherwydd eu bod yn pryderu am golli eu plant)

  *Ro'n i rhy ofnus* (rhiant parent)i

  *Byddai hi'n gofyn cwestiwn i mi a byddwn i'n holi pam yn gyntaf. Ond nawr dw i'n deall y bydd hi'n dod i wybod. Os ydw i'n dweud rhywbeth wrthi hi nawr*

*mae'n dda iawn. Ond cymerodd hyn dipyn o amser. Mae fy ngweithiwr cymdeithasol wedi bod o gymorth mawr, mae hi wedi bod yn dda* (rhiant)

- Teimlo bod gweithiwr(wyr) cymdeithasol eu plentyn yn hawdd siarad â hi, yn gefnogol ac yn treulio amser gyda'r rhiant a'r plentyn (plant).

  *Oherwydd, ar ddiwedd y dydd, os ydych yn mynd i roi gweithiwr cymdeithasol i rywun, mae angen i chi fondio gyda'r gweithiwr cymdeithasol hwnnw/honno. Byddai'n eistedd ar y llawr, y teganau,.. roedd hi'n arfer ymuno ac roeddwn i'n meddwl. O! caria mlaen!* (rhiant)

- Bod yn gallu siarad yn agored a chyfforddus gyda'r gweithiwr(wyr).

  *Galla i siarad gyda hi am unrhyw beth* (rhiant)

- Ei bod yn hawdd cysylltu â'r gweithiwr cymdeithasol neu weithwyr eraill.

  *Dim ond i fi anfon neges destun ati i ddweud mod i angen rhywbeth, mae hi wrth fy nrws yn syth* (rhiant)

- Cyfathrebiadau sy'n cael eu teilwra at anghenion rhiant, er enghraifft os na fydd rhiant ddim yn hoffi defnyddio'r ffôn, mwy o drafod wyneb yn wyneb.

Roedd gweithwyr proffesiynol a gyfwelwyd ar gyfer yr astudiaeth hon yn gallu nodi ystod o briodweddau priodol cyfathrebu effeithiol yn cynnwys: brawddegu syml, gonest, hygyrch. ailadrodd gwybodaeth a gwirio dealltwriaeth; caniatáu digon o amser i gyfathrebu; yn dangos / arddangos beth i'w wneud, peidio â dweud; arddangos empathi; defnyddio deunyddiau gweledol cymorth.

> *Mae angen i chi sefydlu perthynas, cynnal sgyrsiau. Yn hytrach na dweud wrth riant beth i'w wneud, eu cael i fynegi'r hyn sydd angen iddyn nhw ei wneud* (gweithiwr cymdeithasol)

Dywedodd rhai o'r gweithwyr cymdeithasol eu bod wedi cael cynnig hyfforddiant mewn cyfathrebu'n effeithiol gyda phobl ag anabledd dysgu a bod hyn wedi bod yn ddefnyddiol.

Ceir tystiolaeth ddangosol hefyd o'r dadansoddiad o'r ffeiliau achos fod:

- **Llawer o rieni ag anabledd neu anhawster dysgu yn cael cynnig asesiad sy'n cynnwys elfen arbenigol** (penodol i'w darpar anghenion neu i'w hanghenion dysgu dynodedig). Ceir gwybodaeth am yr asesiadau hyn yn adran 4 uchod.
- **Mae rhai o'r rhieni yn derbyn ac yn elwa o gymorth eiriolaeth**, yn enwedig pan fydd eu plant yn dod yn rhan o brosesau amddiffyn plant a/neu brosesau llys. Mewn 14/70 neu 20 cant o garfan ffeiliau achos yr astudiaeth, roedd hyn yn wir. Adroddodd gweithwyr proffesiynol a gyfwelwyd ar gyfer yr astudiaeth hon bod y graddau y cynigir cymorth eiriolaeth yn gyffredinol a'i gyrchu gan rieni ag anabledd dysgu yn amrywio'n fawr o faes i faes. Mewn nifer gyfyngedig o feysydd, mae'n ymddangos ei fod yn cael ei gynnig yn rheolaidd i rieni cyn gynted ag y mae gweithdrefnau amddiffyn plant yn cychwyn:

*Rydyn ni'n ei gynnig a'i ail-gynnig* (gweithiwr cymdeithasol)

*Byddwn bob amser yn cyfeirio at eiriolaeth* (gweithiwr cymdeithasol)

- **Mae rhai rhieni yn elwa o'u hymglymiad â Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Oedolion** i gefnogi asesiad o'u hanghenion a/neu ddarparu cymorth ar eu cyfer nhw eu hunain neu ar gyfer eu gofalwr(wyr). Darparodd dadansoddiad o'r ffeiliau achos dystiolaeth ddangosol bod, mewn lleiafrif o awdurdodau lleol y Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Oedolion yn fynych, a hyd yn oed yn rheolaidd yn ymwneud ag asesiad plant a/neu cynlluniau cymorth. Mae gweithwyr proffesiynol yn y meysydd hyn yn cadarnhau bod rhieni gydag anableddau dysgu 'fel arfer' yn cael eu cyfeirio at y Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Oedolion am gymorth a bod cydweithio hefyd yn rhywbeth cymharol gyffredin.
  Lle mae Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Oedolion yn cael eu defnyddio yng nghyd-destun ymyriad a gychwynnir gan Ofal Cymdeithasol Plant, mae tystiolaeth o garfan y ffeiliau achos y gallai hyn fod yn ddefnyddiol iawn, er enghraifft: i gael cymorth i'r rhiant gyfathrebu'n effeithiol yn ystod proses statudol; i gynorthwyo'r tîm plant i gyfathrebu'n fwy effeithiol gyda'r rhiant, a/neu i gael cymorth ymarferol ac emosiynol ar gyfer y rhiant ei hun.
- **Rhieni ag anableddau / anawsterau dysgu yn derbyn cymorth i fagu plant** o ganlyniad i'w plentyn dderbyn Cynllun Gofal a Chymorth. Mewn 34/70 (49 y cant) o achosion yn ein dadansoddiad o ffeiliau achos, gellid disgrifio lefel y cymorth teulu a gynigwyd i'r teulu fel cymorth dwys, yn cynnwys, er enghraifft lleoliad mam a'i phlentyn a/neu raglen ddwys o gymorth yn y cartref. Mewn 25/70 (36 y cant) o achosion, roedd y math o gymorth teulu yn llai dwys o ran natur ond er hynny yn benodol ar gyfer rhai neu holl feysydd anghenion teulu (er enghraifft; cymorth i fagu plant; problemau iechyd meddwl rhiant; cam-drin domestig/ perthynas iach; rhiant yn camddefnyddio sylweddau; gofal seibiant ar gyfer plant ag anableddau; mynediad i weithgareddau ar gyfer plant). Roedd y rhain yn aml yn becynnau cymorth aml-ddisgyblaethol yn cynnwys gwasanaethau iechyd yn y gymuned.

  Mewn 11/70 (16 y cant) o achosion, roedd y cymorth yn amlwg yn llai penodol ar gyfer cadw'r teulu gyda'i gilydd, yn bennaf oherwydd bod y plentyn wedi cael ei roi mewn gofal yn gynnar yn y broses ymyrryd o ganlyniad i bryderon sylweddol am ddiogelwch neu ar gais y rhiant /rhieni. Yn yr achosion hyn, roedd y cymorth a gyfeiriwyd at y rhiant /rhieni fel arfer i'w galluogi i ymglymu'n bositif â chyswllt dan oruchwyliaeth gyda'u plentyn. Mewn achosion eraill ni chynigwyd dim neu nemor ddim cymorth ymarferol oherwydd nad oedd y rhiant yn dymuno ymglymu gyda'r ymyriad.

  Mae'r dull y darperir y cymorth hwn yn amrywio o faes i faes gyda rhai awdurdodau lleol yn gwneud defnydd helaeth o leoliadau mam a'i phlentyn ac eraill yn cynorthwyo mwy o rieni yn eu cartrefi / yn y gymuned.

Ceir enghreifftiau yn y dadansoddiad ffeiliau achos o rieni yn ymateb yn dda neu'n dda iawn i'r ddau fath o gymorth (lleoliadau yn y gymuned a lleoliadau mam a'i phlentyn) ac i gymorth yn amrywio o ran hyd a dwyster yn arbennig pecynnau penodol i anghenion rhieni ag anabledd / anhawster dysgu (gweler isod).

Mae llawer o weithwyr proffesiynol yn dweud bod natur Gofal Cymdeithasol Plant yn ei hanfod yn para am gyfnod penodol yn cynnwys hybu anghenion mwyaf y plentyn.

Yn aml nododd y rhieni a holwyd ar gyfer yr astudiaeth hon eu dymuniad y byddai'r bennod gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn dod i ben ac iddyn nhw gael bywyd 'mwy normal', ail-ddechrau bywyd cartref gyda llai o fonitro. Fodd bynnag, roedd y gweithwyr proffesiynol a gyfwelwyd yn cydnabod y gallai rhieni ag anabledd dysgu fod angen cymorth mwy parhaus a disgrifiodd rhai sut bydden nhw'n rheoli'r tensiwn hwn er enghraifft drwy symud y teulu o Gynllun Gofal a Chymorth i gael cymorth cynnar penodol yn cynnwys trefniadau 'Tîm o Amgylch y Teulu'. Gallai'r gwasanaethau cymorth cynnar hyn hefyd fod o dan bwysau i weithio gyda theuluoedd am gyfnod penodol. Mewn rhai achosion, roedd y gweithwyr proffesiynol a gyfwelwyd yn credu y byddai hefyd yn haws ac yn fwy derbyniol i rieni gyrchu cymorth parhaus ar gyfer nhw eu hunain os ydyn nhw'n gymwys ar gyfer Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Oedolion neu gymorth gan Dimoedd Anabledd Plant (os oes ganddyn nhw blentyn ag anabledd), gan fod y rhain yn teimlo'n llai bygythiol i rieni gan fod y rhain yn teimlo'n llai bygythiol i'r rhiant ac yn mynd i'r afael yn fwy gyda chynnig cymorth tymor canolig i hirdymor.

- **Mae peth o'r cymorth sy'n cael ei gynnig i deuluoedd â Chynllun Gofal a Chymorth wedi'i deilwra'n dda ar gyfer eu hanghenion.** Yn 21/68 neu 31 cant o'r achosion lle roedd hi'n bosibl i farnu, ystyriwyd bod y cymorth i deuluoedd yng ngharfan y ffeiliau achos wedi'u teilwra'n dda ar gyfer anghenion rhiant ag anabledd / anhawster dysgu. Ystyriodd yr ymchwilwyr bod y cymorth wedi'i deilwra'n dda naill ai os mai darparwr 'arbenigol' oedd yn eu gynnig (er enghraifft lleoliad mam a'i phlentyn neu ddarparwr cymorth yn y gymuned i fagu plant yn arbenigo mewn gweithio gyda rhieni ag anabledd dysgu) neu lle roedd yn cael ei gynnig gan wasanaeth neu dîm mwy generig (er enghraifft cymorth teulu) ond yn cyfeirio at nodweddion arfer da megis: defnyddio cymhorthion ac adnoddau darluniadol; modelu / dangos i rieni neu beth i'w wneud yn hytrach na dweud wrthyn nhw; ail-ymweld yn rheolaidd â'r dysgu; neu bethau penodol i'ch atgoffa am apwyntiadau allweddol. Roedd 38 y cant pellach (26/68) o achosion yn ymddangos i fod yn rhannol benodol i anghenion rhiant ag anabledd / anhawster dysgu.

  Roedd yna gysylltiad rhwng cymorth oedd wedi'i deilwra'n well yng ngharfan y ffeiliau achos ag ymglymiad sylweddol gwell y rhieni gydag e. Mewn cyfran sylweddol

(19/21) o garfan yr achosion lle roedd rhieni yn defnyddio'r cymorth yn dda iawn, ystyriwyd bod y cymorth hwnnw naill ail wedi'i deilwra'n da neu rannol dda i'w hanghenion. Mae hyn yn cymharu gyda dim ond 9/20 o'r garfan rhieni nad oedd yn defnyddio'r cymorth yn dda a 19/27 o'r garfan rhieni oedd yn rhannol ymglymedig.

Roedd mwy o blant yng ngharfan y ffeiliau achos yn byw yn ddiogel gyda'u rhiant /rhieni, o leiaf yn y tymor byr, lle cafwyd cymorth da gan weithiwr cymdeithasol, lle roedd y cymorth wedi'i deilwra at anghenion rhiant ag anabledd dysgu, a/neu lle roedd cymorth (defnyddiol) i ofalu am blentyn/plant o deulu ehangach y rhiant /rhieni.

Disgrifiodd rhai rhieni a gyfwelwyd y dychwelyd i gartref eu rhieni yn ystod eu beichiogrwydd, gan ystyried y byddai hynny yn ffactor a fyddai'n eu hamddiffyn rhag colli eu plentyn. Disgrifiodd llawer o rieni eu bod wedi poeni am ymglymiad y gwasanaethau cymdeithasol neu'r bygythiad o ymglymiad.

Roedd profiadau rhieni o weithwyr cymdeithasol a'r gwasanaethau cymdeithasol yn rhai cymysg, weithiau i'r un rhiant (gyda nifer o wahanol weithwyr cymdeithasol). Fe arfer, roedd y rhieni a gyfwelwyd ar gyfer yr astudiaeth hon yn cysylltu eu profiadau cadarnhaol gyda'r canlynol:

- **Wedi derbyn help ymarferol cyson** gyda'r cartref neu gyda magu plant, er enghraifft help i glirio'r llanast yn y tŷ, trefnu cymorth ariannol, darllen llythyrau ffurfiol neu helpu i ddanfon y plant i'r ysgol a'u nôl. Mae'r peth o'r cymorth hwn yn benodol ar gyfer y rhiant ei hun (yn hytrach nag yn benodol ar gyfer eu plant), er enghraifft gan Wasanaethau Anabledd Dysgu Oedolion.
- **Cyngor neu gymorth un-i-un ar gyfer magu plant** gyda thasgau rhianta megis trefn ddyddiol, bwyta'n iach a gosod ffiniau sy'n parhau cyhyd ag y bo angen (er mwyn sefydlu trefn ddyddiol dda) a/neu help i sylweddoli sut mae pethau'n newid wrth i'r plant dyfu. Fel arfer y gweithwyr cymorth yn gweithio gyda gweithwyr cymdeithasol sy'n darparu hyn.
- **Cymhorthion gweledol ar gyfer tasgau allweddol magu plant**, er enghraifft, siartiau ar y wal.
- **Gweithgaredd hygyrch cylch chwarae** neu ofal meithrin ar gyfer eu plant (a gwybodaeth hygyrch am y gweithgareddau hyn a/neu gymorth i'w cyrchu).

  > *Fe wnaethon nhw fy helpu i fynd i gylch chwarae gyda hi. Dw i'n casáu mynd i leoedd gwahanol a chwrdd â phobl newydd, dw i ddim yn hoffi hynna o gwbl. Felly mae hi'n mynd i ddod yma i fynd â fi. Dim ond rownd y gornel mae e, felly bydda i'n cerdded yno gyda hi wedyn* (rhiant)

- **Cael 'gwir gyfle' i brofi'r teimlad o fagu plentyn**.

- **Cymorth i wirioneddol ddeall risgiau penodol i'r plentyn/ plant** er enghraifft gan bartner treisgar.

  *I gael fi i ffwrdd oddi wrth y dyn ron i'n arfer byw gyda. Wel, ddwedon nhw wrtha i bod rhaid i fi symud. Heblaw amdanyn nhw, byddwn i'n dal yno, byddwn i wedi ei cholli hi. Agoron nhw fy llygaid, wir i chi* (rhiant)

- **Cymorth ar gyfer y teulu cyfan, er enghraifft ar gyfer Tadau yn ogystal â Mamau** (er enghraifft, disgrifiodd un tad a gyfwelwyd ei fod wedi cael cymorth i fynd i Grŵp Tadau yn lleol yn ogystal â chyfrannu at drefniadau dyddiol y teulu).

## 5.2. Tystiolaeth o Gyfyngiadau mewn Ymarfer Cyfredol

### Maes Un: Cyfyngiadau mewn argaeledd o wybodaeth hygyrch i rieni

Mae'n ymddangos, o'r holl dystiolaeth a gasglwyd i'r ymchwil hwn, bod cyfyngiadau mawr ar y gwasanaeth ar hyn o bryd o ran cynnig gwybodaeth hygyrch i rieni ag anabledd / anhawster dysgu am yr hyn i gellid ei ddisgwyl o'r broses statudol a pham. Dim ond 20/70 neu 29 y cant o'n sampl o achosion oedd, mae'n ymddangos, yn cael cynnig gwybodaeth o'r fath ac, os oedd yn cael ei gynnig, ar lafar fyddai hynny bob amser yn hytrach na thrwy ddeunyddiau hygyrch/hawdd eu darllen. Credai bron bob un o'r gweithwyr proffesiynol a gyfwelwyd ar gyfer yr astudiaeth hon bod argaeledd gwybodaeth hygyrch neu gyngor am wasanaethau cymorth naill ai yn brin neu'n brin iawn. Pan fyddai'n cael ei gynnig ar lafar, ystyriwyd mai'r rhwystrau allweddol rhag darparu gwybodaeth hygyrch yn effeithiol oedd diffyg amser gweithiwr cymdeithasol, dim digon o sylw yn cael ei roi i strès rhieni a'i heffeithiau ar allu'r rhiant i amsugno neu i brosesu'r wybodaeth yn effeithiol a defnydd annigonol o gymhorthion gweledol.

> *Mae gweithwyr cymdeithasol yn rhy brysur i egluro* (rheolwr tîm)
>
> *Mae gweithwyr cymdeithasol yn dweud bod rhaid i ni gynnal trafodaeth gyfreithiol ac mae rhieni yn meddwl bod plant yn mynd i gael eu symud o'u gofal. Mae'n creu strès (i rieni) mae'n gwneud hi'n llawer mwy anodd i ddeall* (gweithiwr cymdeithasol )

Roedd gweithwyr proffesiynol a gyfwelwyd yn credu mai galwadau prosesau statudol sy'n gyfrifol am gynnig gwybodaeth ar ffurf dogfennau yn hytrach nag anghenion rhieni ag anabledd / anhawster dysgu. Yn gyffredinol, ni ystyrir bod y wybodaeth hon yn gyfeillgar i ddefnyddwyr, ar wahân i rai dogfennau yn ymwneud â phroses y llys.

### Maes Dau: Cyfyngiadau yn y Cyfathrebu rhwng Gweithiwr Cymdeithasol a Rhiant

Mae dadansoddiad o'r ffeiliau achos yn cynnig tystiolaeth ddangosol bod **peth o'r cyfathrebu rhwng gweithiwr cymdeithasol a rhiant yn llai nag effeithiol** (mewn 25/70 o 36 y cant o'r achosion hyn), Isod, ceir nodweddion y cyfathrebu llai nag effeithiol rhwng gweithiwr cymdeithasol a rhieni a nodwyd yn y dadansoddiad o'r ffeiliau achos:

- Llawer neu fwyafrif o'r cyfathrebu /sgyrsiau allweddol yn digwydd dros y ffôn (yn hytrach na wyneb yn wyneb), er enghraifft siarad drwy ddarpar Gynllun Gofal dros y ffôn. Yn aml teimlai hyn fel gwaith cymdeithasol 'hyd braich'.
- Dull mwy amlwg feirniadol o fynd ati o'r cychwyn cyntaf gan weithiwr cymdeithasol.
- Gor-ddibynnu ar ymgynghorwyr cyfreithiol rhiant / rhieni i egluro pethau iddyn nhw.
- Ffocws sgyrsiau ar bryderon a fu yn hytrach na thrafod gyda rhieni eu cryfderau presennol a'r pryderon cyfredol.
- Disgwyl i rieni ymateb i gyfarwyddiadau asesiadau ysgrifenedig heb lawer o eglurhad (ac weithiau ddim yn eu cynorthwyo i gyrchu unrhyw gymorth wedi'i deilwra o ganlyniad).

Ambell dro, darparodd rhieni a gyfwelwyd ar gyfer yr astudiaeth hon enghreifftiau o gyfathrebu llai effeithiol yr oedden nhw wedi'i brofi gyda gweithiwr cymdeithasol eu plentyn, yn cynnwys: teimlo nad oedd y gweithiwr cymdeithasol yn gefnogol, yn agos atoch, neu'n ceisio 'eich dal chi allan' rywsut; yn cael clywed y byddai eu profiadau blaenorol (yn enwedig yn blentyn) yn anochel yn golygu y byddai eu sgiliau magu plant yn ddiffygiol; teimlo eu bod yn cael eu beirniadu dim ond oherwydd eu hanabledd dysgu; dweud wrthyn nhw beth i'w wneud yn hytrach na dangos iddyn nhw; teimlo bod gonestrwydd yn gwneud pethau'n waeth; neu deimlo mai 'dim ond un cyfle' oedd ganddyn nhw.

> *Gallai hi fod wedi gwneud mwy, chi'n gwybod i fy helpu i allu fod yn rhiant. Gallai hi fod wedi dangos y llwybr i mi roedd rhaid i mi ei ddilyn fel y gallwn fod y rhiant roedden nhw am i mi fod* (rhiant)

> *Roedd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn dal i ddweud wrtha i am fod yn onest gyda nhw… ond wnaeth hynny ddim fy helpu. Wrth i mi fod yn onest gwnaeth bethau'n waeth. Y ffordd dw i'n edrych ar bethau, os ydach chi wedi bod mewn gofal maeth ac wedi cael diagnosis o hyn a'r llall, byddech chi eisiau gwneud bywyd gwell i'ch plentyn* (rhiant)

Dywedodd y mwyafrif o weithwyr proffesiynol a gyfwelwyd ar gyfer yr astudiaeth hon bod ansawdd ac eglurder y cyfathrebu gyda rhieni ag anabledd yn amrywio, yn dibynnu ar nifer o ffactorau yn cynnwys yn arbennig: gallu'r gweithiwr cymdeithasol / gweithwyr eraill i gyfathrebu'n effeithiol a pharodrwydd rhieni i ymglymu. Roedden nhw hefyd yn gallu nodi rhai rhwystrau diwylliannol rhag cyfathrebu'n effeithiol gyda rhieni ag anabledd / anhawster dysgu, yn cynnwys disgwyliadau'r gweithiwr cymdeithasol mai gweithwyr eraill yn hytrach fyddai'n gwneud y 'dangos yn hytrach na'r dweud'. Er y nodwyd bod rhai gweithwyr cymdeithasol wedi cael cynnig hyfforddiant penodol mewn cyfathrebu gyda phobl ag anabledd / anhawster dysgu, doedd eraill ddim wedi derbyn hyfforddiant o'r fath a theimlai rhai bod angen mwy o gysondeb yn y cyfarwyddyd ar gyfer y maes hwn

**Maes Tri: Cyfyngiadau mewn Cymorth Eiriolaeth**

Mae'n ymddangos mai prin ydy argaeledd cymorth eiriolaeth ar gyfer rhieni ag anabledd / anhawster dysgu mewn rhai awdurdodau lleol. Mewn 80 y cant (56/70) o'r achosion yn ein sampl o ffeiliau achos, roedd hi'n ymddangos nad oedd rhieni wedi cael cymorth eiriolaeth. Er bod nifer fechan o rieni wedi cael cynnig y cyfryw gymorth roedden nhw wedi gwrthod, roedd ffeiliau achos eraill yn awgrymu y gallen nhw fod wedi elwa ond yn amlwg heb gael y cynnig.

Disgrifiodd gweithwyr proffesiynol mewn rhai ardaloedd sut y cynigir cymorth eiriolaeth i rieni fel mater o drefn tra mewn ardaloedd eraill ni wneir hyn fel mater o drefn.

Os darperir eiriolaeth a'i derbyn gan riant / rieni, roedd gweithwyr proffesiynol a gyfwelwyd yn ystyried ei bod fwyaf defnyddiol wrth: ddarparu cymorth ymarferol (er enghraifft i gyrraedd cyfarfodydd); cymorth i ddeall prosesau neu i gyfrannu ar gyfarfodydd; a chymorth emosiynol ehangach ar gyfer y rhiant. Hefyd, roedd gweithwyr proffesiynol yn cydnabod y gall y gwaith achos hwn gymryd amser.

Yn yr un modd, er bod gweithwyr proffesiynol a gyfwelwyd yn ystyried bod rhieni mewn rhai meysydd yn cael eu cynorthwyo'n dda o fewn prosesu statudol mwy eang, ond mewn meysydd eraill ddim yn cael eu cynorthwyo cystal.

> *Rydyn ni wedi gwella'n hymarfer o gynnal cyfarfod trafod ffurfiol gyda'r ffocws ar y teulu ac yn cydgynhyrchu yn gyffredinol* (gweithiwr cymdeithasol)
>
> *Gall rhieni fod yn rhan o'r broses ond heb fod yn cyfranogi* (rheolwr tîm)
>
> *Rydyn ni'n datblygu cynlluniau, ond ni wn faint mae Mam wir yn cyfrannu iddyn nhw* (gweithiwr cymdeithasol)

**Maes Pedwar: Cyfyngiadau yn y Cymorth ar gyfer Rhieni gan Wasanaethau Gofal Cymdeithasol Oedolion**

Ceir tystiolaeth ddangosol o ddadansoddiad y ffeiliau achos ac o'r cyfweliadau gyda gweithwyr cymdeithasol bod Gwasanaethu Gofal Cymdeithasol oedolion yn gwrthod ymglymu mewn asesu a/neu elfennau cymorth ymyriad dan arweiniad Gofal Cymdeithasol Plant mewn nifer o feysydd awdurdodau lleol neu achosion unigol lle gallai eu hymglymiad fod yn ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn.

Credai gweithwyr proffesiynol a gyfwelwyd mewn mwyafrif os nad y cyfan o feysydd awdurdod lleol ei bod yn anodd iawn yn ymarferol i sicrhau cymorth eu Tîm Anabledd Dysgu Oedolion heblaw bod gan riant IQ llai na 70 a/neu bod gan y riant dan sylw weithiwr cymdeithasol (oedolyn) eisoes. Ystyriai llawer o'r rhai hyn a gyfwelwyd bod y meini prawf ar hyn o bryd wedi'u gosod yn rhy uchel a heb fod yn ystyried yn ddigonol pa mor wir fregus ydy'r rhiant a gallu'r rhiant dan sylw i weithredu.

> *Maen nhw'n dweud nad oes unrhyw anghenion ond maen nhw'n agored iawn i niwed (rhai rhieni ag anabledd dysgu)* (rheolwr tîm)

> *Yn aml, ni dderbynnir ein hatgyfeiriadau* (gweithiwr cymdeithasol)
>
> *Mae rhai rhieni yn crefu am y math hwn o gymorth ond dydyn nhw ddim yn ei gael* (rheolwr tîm)
>
> *Mae gwasanaethau oedolion yn ystyried bod magu plant yn rôl gwasanaethau plant yn hytrach na'u eu rôl nhw* (rheolwr tîm)

Mae dadansoddiad y ffeil achos yn awgrymu bod amlder ymglymiad y gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Oedolion yn amrywio yn sylweddol (o ddim un achos i 62 y cant o achosion mewn gwahanol ardaloedd lleol).

Mewn rhai achosion, wrth gwrs, ni fyddai'n briodol (na dymunol o safbwynt y rhiant) ymglymu'r gwasanaeth anabledd dysgu fel hyn. Fodd bynnag, mewn achosion eraill nododd ymchwilwyr y gallai ymglymu'r gwasanaeth fod yn ddefnyddiol yn enwedig os ydy'r rhiant yn agored i niwed yn y gymuned (er enghraifft oherwydd cyfuniad o anabledd dysgu, problemau iechyd meddwl a'u profiad yn ystod eu plentyndod) yn hytrach nac oherwydd eu sgôr IQ yn unig.

**Maes Pump: Cyfyngiadau mewn Teilwra Cymorth**

Mewn dros draean o'r achosion yng ngharfan y ffeiliau achos (39 y cant neu 23/68 o achosion lle roedd hi'n bosibl i farnu ar hyn), nid oedd y cymorth a gynigwyd fel rhan o'r Cynllun Gofal a Chymorth yn ymddangos i fod wedi'i deilwra ar gyfer anghenion rhiant ag anabledd / anhawster dysgu naill ai o ran y math o gymorth neu'r dull o'i gynnig. Mae dadansoddiad o ganlyniadau teulu yn yr achosion hyn yn awgrymu bod cymorth heb ei deilwra'n dda yn cael effaith ar i ba raddau y mae rhiant ag anabledd / anhawster dysgu yn ymglymu'n llwyddiannus gydag e. Er enghraifft, dim ond mewn cyfran isel iawn o achosion lle nad oedd rhieni yn ymglymu'n dda â'r cymorth (2/20) nad oedd yr ymchwilwyr yn ystyried bod y cymorth hwn wedi'i deilwra'n dda i'w hanghenion (mewn 7/20 o achosion pellach, ystyriwyd bod y cymorth wedi'i deilwra'n rhannol).

Fodd bynnag, mae dadansoddiad o'r ffeiliau achos hefyd yn cynnig tystiolaeth ddangosol bod y rhesymau dros fethiant gwasanaeth cymorth i ymglymu rhieni yn llwyddiannus (ac i blant felly fethu â pharhau i fyw gartref gyda'u rhieni) yn debygol o fod yn llawer mwy cymhleth. Gallai'r hyn sy'n gyrru methiant i ymglymu hefyd gynnwys er enghraifft: rhieni'n cael eu hynysu o unrhyw rwydwaith teuluol neu gymunedol; ffactorau risg cynyddol o gam-drin neu esgeulustod (yn enwedig pa mor agored ydy rhiant i niwed gael ei niweidio gan oedolion camdriniol a chamdriniaeth domestig) a / neu diffyg sylfaenol o ysgogiad rhiant neu ansicrwydd am y dasg o fagu plant. Mae cyfyngiadau dadansoddiad o'r ffeiliau achos yn golygu ei bod yn anodd i fod yn glir am y graddau mae ansicrwydd o ran magu plant yn wir neu'n hytrach yn arwydd o ddiffyg dealltwriaeth rhiant am y pryderon, problemau iechyd meddwl, diffyg modelau rôl positif i fagu plant neu bod y rhiant yn rhagweld colli'r plentyn. Yn sicr, dywedodd llawer o'r rhieni a gyfwelwyd ar gyfer yr astudiaeth eu bod yn ymwybodol

ar gyfnod cynnar o'r tebygrwydd o golli eu plant a dywedodd un ei bod wedi meddwl bod hyn wedi ei rhwystro rhag closio at ei phlentyn.

*Ron i'n meddwl na allwn glosio ati... dim ond rhag ofn y bydden nhw'n mynd â hi* (rhiant)

Disgrifiodd rhiant o fod 'ar bigau'r drain' yn ystod y misoedd cynnar ar ôl i'w phlentyn gael ei eni. Dywedodd rhieni eraill nad oedden nhw'n wedi deall yr atgyfeiriadau i'r gwasanaethau gofal cymdeithasol plant (a bod yn anhapus amdanyn nhw).

Mae cyfweliadau gyda gweithwyr proffesiynol yn awgrymu mai dim ond pocedi o wasanaethau cymorth arbenigol neu o ymarfer rhagorol sydd ar gael ar hyn o bryd i gynorthwyo rhieni ag anabledd dysgu o fewn y gymuned, er lle maen nhw'n bodoli, maen nhw'n cael eu gwerthfawrogi. Ar ben hynny, cydnabyddir bod rhai adnoddau cymorth mwy generig i fagu plant ddim wedi'u teilwra'n ddigon cyson i ddiwallu anghenion y rhieni.

> *Mae'n ymddangos bod rhieni yn cael cynnig llawer (yn gyfredol) ond heb ei deilwra, felly dydy e ddim yn ystyrlon nac yn llwyddiannus* (rheolwr gwasanaeth)

Ystyrir bod bylchau penodol eraill ar gyfer lleoliadau arbenigol mam a'i plentyn naill ai cyn geni neu cyn-trafodion.

**Maes Chwech: Oedi o ran asesu anghenion plentyn a'r teulu neu o ran darparu cymorth**

Mewn nifer o achosion yn y dadansoddiad o ffeiliau achos ac ar draws pob ardal awdurdod lleol, roedd yn ymddangos bod asesiadau arbenigol wedi'u comisiynu yn gymharol hwyr yn yr ymyrraeth deuluol, er enghraifft o fewn achos llys neu o ganlyniad i orchymyn llys mewn achos gofal. Roedd yr oedi hyn yn cyfyngu ar eu potensial i gyfarwyddo cynlluniau cymorth effeithiol o fewn amserlen dderbyniol.

Mewn rhai achosion atgyfeiriwyd at y Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant a chynhaliwyd asesiad o anghenion y plentyn yn y groth yng nghyd-destun amgylchiadau y rhiant /rhieni 'cyn y geni' ond ni chynigiwyd unrhyw gymorth nes i'r babi gael ei eni.

Weithiau, roedd gweithwyr proffesiynol a gyfwelwyd ar gyfer yr astudiaeth hon yn cydnabod y gallai oedi fel hyn fod yn ddi-fudd ac mae'n ymddangos eu bod wedi'u hymgorffori o fewn pethau arferol sefydliad sy'n effeithio ar ymatebion gweithwyr unigol i deuluoedd unigol.

Mewn cyferbyniad, disgrifiodd un o'r rhieni a gyfwelwyd ar gyfer yr astudiaeth hon y modd y bu'r cymorth cyn-geni wedi ei helpu i gael trefn arni ei hun yn ymarferol i baratoi ar gyfer y babi ac hefyd i wahanu oddi wrth bartner oedd yn ei cham-drin:

> *Fe helpon nhw fi'n fawr a ches ddillad a phopeth. Doedd e ddim yn dŷ neis, roedd fy nghyn-bartner fel bod gyda phlentyn bach. Roedd yn gwneud mwy o lanast. Byth yn gallu ei lanhau. Roedd hi (y gweithiwr) yn 'lyfli'* (rhiant)

Dywedodd rhiant (tad) nad oedd wedi derbyn llawer o gymorth cynnar, yn cynnwys yn ystod beichiogrwydd ei bartner. Byddai wedi hoffi rhagor o gymorth bryd hynny, yn cynnwys ei helpu i wella o'i brofiadau o gael ei gam-drin yn ystod ei blentyndod cyn dod yn dad.

> *Cael rhywun wrth fy ochr, bydden nhw wedi fy nghael drwy hynny ... gallwn i fod wedi anghofio am fy ngorffennol ac yna dod yn dad am y tro cyntaf* (rhiant)

**Ardal Saith: Cyfyngiadau yn Argaeledd y Cymorth ar gyfer Oedolion Agored i Niwed eu Hunain**

Yn benodol, ar ôl i blant gael eu symud o ofal rhiant ag anabledd dysgu, mae’r astudiaeth hon yn awgrymu ei bod yn debygol iawn y bydd y rhain dan sylw yn agored i niwed neu’n parhau i fod yn agored iawn i niwed yn cynnwys oedolion camdriniol o fewn y gymuned (tybir mai hyn oedd y gwir ar gyfer cyfran fawr, 20/32, o’r rhieni hynny y symudwyd eu plant o’u gofal o fewn ein sampl o ffeiliau achos).

Fodd bynnag, roedd hi’n ymddangos mai dim ond ychydig o rieni yng ngharfan y ffeiliau achos a gafodd gynnig cymorth fel unigolion agored i niwed gan naill ai weithiwr cymdeithasol eu plentyn neu unrhyw weithiwr neu wasanaeth ar ôl i’w plentyn gael ei dderbyn i ofal. Fodd bynnag, yn aml, daeth y rhyngweithio gyda gweithiwr cymdeithasol y plentyn yn sydyn neu ar ddiwedd trafodion y llys. Disgrifiodd dau riant a gyfwelwyd yr gyfer yr astudiaeth hon sut deimlad oedd hi i gael y cymorth i ddod i ben fel hyn:

> *Dydy hi ddim yn dod yma, dw i’n siarad â hi dros y ffôn. Na, dydy hi ddim, yn dod i ngweld i. Dw i wedi bod yma nawr ers wyth mis a dydy ddim wedi dod unwaith. Dw i’n meddwl mai’r cyfan mae hi isie nawr ydy dod â’r achos i ben a, chi’n gwybod, cysylltu â mabwysiadwyr.* (rhiant)

> *Dydyn ni ddim wir yn gweld y Gwasanaethau Cymdeithasol ers y llys* (rhiant)

Er bod rhai gweithwyr proffesiynol wedi enwi pethau newydd yn ddiweddar megis y Rhaglen ‘Adfyfyrio’ (‘Reflect’ Programme) sydd mewn theori yn cynnig cymorth parhaus i riant ar ôl i blentyn gael ei symud, sylweddolwyd nad yw’r rhain wedi’u teilwra’n benodol at rieni ag anabledd dysgu dim ond ar ôl i’r plentyn cyntaf gael ei symud (ar ôl i Orchymyn Gofal gael ei wneud).

> *Dylai fod mwy o gymorth ar gael unwaith bydd y plentyn wedi mynd ac yna maen nhw cael eu gadael i fod* (gweithiwr cymdeithasol)

Roedd rhai gweithwyr proffesiynol a gyfwelwyd hefyd yn tybied pam nad oedd mwy o gymorth i oedolion a rhieni ag anabledd dysgu yn gyffredinol, yn cynnwys cyn iddyn nhw fynd yn feichiog, yn enwedig o ran perthynas iach.

# 6. Casgliadau'r Astudiaeth

Mae'r astudiaeth hon yn cynnig tystiolaeth ddangosol sef:

- Does dim digon o wybodaeth ddibynadwy am nifer a chyfran y plant y mae eu rhieni ag anabledd dysgu yn ymwneud â'r Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant a/neu sy'n dod i mewn i ofal i seilio barn ar i ba raddau y maen nhw'n ymglymedig neu wedi cael eu gor-gynrychioli yn y boblogaeth hon. Un o'r prif resymau dros hyn ydy diffyg diffiniad a chanllawiau cenedlaethol ddigon clir i Wasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant allu canfod a chofnodi'r cyfryw anabledd (at ddibenion amcangyfrif y gwir gyfran). Fodd bynnag, cymhlethir y gallu i gofnodi'n gywir gan ystod o ffactorau eraill a allai fod yn bresennol yn cynnwys amharodrwydd rhiant i ddatgelu anabledd neu achosion gwahaniaethol o anawsterau rhiant i brosesau neu ymateb i wybodaeth, er enghraifft, hanes y rhiant ei hun o drawma, camdriniaeth neu esgeulustod neu broblemau iechyd meddwl.

- Prin mai anabledd dysgu ydy'r unig bryder a'r unig reswm dros gyfeirio rhieni at Wasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant ac i blant dderbyn gofal. Mae'n anodd i nodi prif ffactor mewn achosion sydd fel arfer yn gymharol gymhleth, ond ymhlith ffactorau cyffredin eraill mae: nodweddion rhieni neu deuluol (a allai beri risgiau) yn cynnwys: rhieni yn cam-drin sylweddau, cam-drin domestig a/neu broblemau iechyd meddwl rhieni; cyflwr gwael y cartref; neu fod rhieni yn agored i gael eu cam-drin gan oedolion yn y gymuned. Mewn nifer o achosion, mae gan blentyn, sy'n destun pryder i wasanaethau, frawd neu chwaer neu hanner brawd neu chwaer hŷn eisoes yn derbyn gofal.

  Fodd bynnag, mae'n glir bod arferion a systemau proffesiynol, sy'n annog rhoi rhieni newydd ar y llwybr cyflym i mewn i Wasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant neu drwy systemau llys, yn gosod rhai rhieni dan anfantais o ran yr amser sydd ganddyn nhw i brofi eu hunain yn rhieni effeithiol. Yn yr un modd, mae potensial i asesiadau o waith cymdeithasol, heb fod yn rhai cytbwys a gofalus a/neu asesiadau arbenigol a gynhelir yn hwyr neu a gynhelir gan rywun di-brofiad, i gyfyngu ar allu rhieni, o leiaf i elwa o wasanaethau sydd wedi'u teilwra'n dda i ddiwallu eu hanghenion.

  Ar wahân i wasanaethau cymorth wedi'u teilwra'n dda, mae gweithwyr cymorth allweddol (yn cynnwys gweithwyr cymdeithasol) ac aelodau'r teulu estynedig yn ffactorau gwytnwch clir yn ogystal â gwytnwch mewnol y rhieni eu hunain a'u symbyliad i fagu eu plant.

  Er y ceir pocedi o arferion da gyda rhai rhieni ag anabledd dysgu yn cael cymorth effeithiol i ofalu am eu plant, mae llawer o le i wella; yn cynnwys y canlynol: ceisio nodi ac ystyried yn effeithiol effaith anabledd dysgu ar allu rhieni i fagu plant yn

briodol; darparu gwybodaeth hygyrch ac o ansawdd da ar gyfer rhieni am yr hyn y gellir ei ddisgwyl gan Wasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant; cyfathrebu parhaus effeithiol rhwng gweithwyr cymdeithasol a rhieni; darparu cymorth i rieni sy'n agored i niwed (yn rhannol ond heb fod yn gyfangwbl oherwydd graddau eu hanabledd); argaeledd eiriolaeth; argaeledd y cymorth yn ddigon cynnar, yn cynnwys ystyried anghenion penodol rhieni ag anabledd dysgu sy'n disgwyl babi; ac hefyd sicrhau bod y cymorth a gynigir i rieni ag anabledd dysgu wedi'i deilwra'n ddigon da i ddiwallu eu hanghenion.

## 7. Cyfyngiadau'r Astudiaeth

Mae adran fethodoleg yr adroddiad hwn yn nodi rhai cyfyngiadau o fewn methodoleg yr astudiaeth, yn enwedig o ran y nifer o ffeiliau achos yr oedden ni wedi gallu eu harchwilio ar draws maes pum awdurdod lleol (70 yn hytrach na 100) ac i ba raddau y gellir dweud eu bod yn gynrychioliadol iawn o holl achosion diweddar rhieni yn ymwneud â Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant.

Yn fwy cyffredinol, cyfyngiadau allweddol yr astudiaeth ydy'r canlynol:

- Bod ffaeleddau sylweddol yn y data meintiol a ddefnyddiwyd ar gyfer Cwestiwn Ymchwil Un i amcangyfrif cyfrannau rhieni ag anabledd dysgu ym mhoblogaethau statudol allweddol plant, fel y disgrifiwyd yn Adran Tri i'r graddau na all yr astudiaeth ateb y cwestiwn allweddol hwn.
- Y llall, mae elfennau ansoddol gan fwyaf yr astudiaeth hon yn darparu tystiolaeth ddangosol yn hytrach na therfynol o ganfyddiadau a restrir yn Adrannau Tri i Chwech uchod.

## 8. Argymhellion

Isod, ceir ein saith argymhelliad ar gyfer ymarfer yn y maes hwn yn gysylltiedig â'r canfyddiadau a amlinellwyd yn yr adroddiad hwn:

1. Datblygu gwell diffiniad cenedlaethol o anabledd dysgu er mwyn cynorthwyo awdurdodau lleol i ganfod rhieni ag anabledd dysgu a chofnodi'r rhain yn gywir at ddibenion ystadegol. Yn ogystal, Llywodraeth Cymru a Phenaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan i gydweithio i ddatblygu protocol hawdd ei ddeall i gynorthwyo gweithwyr cymdeithasol i ddehongli'r diffiniad a'i gymhwyso'n gywir. Ystyried sut gallai gwasanaethau eraill, er enghraifft gwasanaethau iechyd cymunedol, gofnodi nifer a chyfran rhieni ag anabledd dysgu mewn poblogaethau helaethach, er enghraifft rhieni newydd.

2. Gofyn am ddatblygu a darparu gwybodaeth hygyrch cenedlaethol neu leol hawdd ei darllen am fod yn rhiant a / neu ymglymu gyda Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant a'r llys teulu. Gellid darparu gwybodaeth ar ffurf dogfennau mwy traddodiadol yn ogystal â gwefannau, apps a chysylltiadau fideo.

3. Datblygu canllawiau cenedlaethol ac ystyried hyfforddiant gorfodol ar gyfer gweithwyr cymdeithasol ar:
    - sut i nodi anabledd / anhawster dysgu rhiant (yn cynnwys ynghyd â chyflwyniadau eraill er enghraifft salwch meddwl neu gamddefnyddio sylweddau) mewn modd amserol ac effeithiol;
    - sut i gyfathrebu'n effeithiol gyda rhieni sydd ag anabledd neu anhawster dysgu;
    - pryd y dylid cynnig eiriolaeth; ac hefyd yr
    - arfer gorau i gynnal asesiad lle mae gan riant anabledd dysgu

   Ystyried cynnwys gweithwyr proffesiynol eraill (help cynnar) yn y canllawiau er mwyn hwyluso sgrinio a chymorth cynharach a mwy effeithiol ar gyfer rhieni gydag anabledd dysgu.

4. Annog Gwasanaethau Gofal Plant ac Oedolion i ddatblygu protocolau effeithiol ar y cyd i'w helpu i gydweithio yn well ac i wella'r cymorth y maen nhw'n ei gynnig. Bydd y rhain o help penodol i:
    - benderfynu ar gymhwyster a phennu trefniadau mynediad ar gyfer rhieni ag anabledd dysgu ac sy'n agored i niwed dderbyn cymorth, yn cynnwys yn ystod beichiogrwydd;
    - esbonio rolau a dulliau cydweithio pan fydd y ddau wasanaeth yn cael eu cynnwys;
    - gwella'r cyfathrebu rhwng gwasanaethau oedolion a phlant a gwella'r dull atgyfeirio rhyngddyn nhw;

- galluogi’r defnydd o hyblygrwydd cyllidebau
- hybu cyfleoedd hyfforddiant.

Mae’n debygol bod rhai protocolau eisoes yn bodoli mewn rhannau o Gymru a byddai’n dda i adeiladau’n effeithiol ar ymarfer effeithiol sydd eisoes yn bodoli yn y meysydd hyn. Ystyried cymell cyd-drefnu cyllidebau

5. Annog a chymell y ddarpariaeth o gymorth cynnar i rieni ag anabledd / anhawster efallai ac sy’n hysbys eu bod yn agored i niwed, er enghraifft oherwydd profiad andwyol yn ystod eu plentyndod. Ar gyfer plant a atgyfeiriwyd i Wasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant cyn eu geni, dylai hyn fod yn ychwanegol at asesiad cyn-geni a / neu hyd yn oed cyn y ‘trothwy’ 20 wythnos sydd yn bodoli yn gyffredinol ar hyn o bryd.

6. Hyrwyddo darpariaeth fwy cyson o wasanaethau cymorth sydd wedi’u teilwra’n dda i ddiwallu anghenion rhieni ag anabledd / anhawster, boed y cymorth hwnnw yng nghartref y rhieni eu hunain neu mewn lleoliad mam a’i phlentyn. Gellid cynnal hwn er enghraifft: drwy ledaenu ymwybyddiaeth o’r hyn sy’n ‘dda’ (gyda chymorth Gofal Cymdeithasol Cymru); a / neu drwy gynnig cymorth cenedlaethol ar gyfer blaengaredd a datblygiad yn y maes hwn drwy chwistrelliad o arian grant cenedlaethol ar gyfer prosiectau lleol a rhanbarthol.

7. Hyrwyddo darpariaeth fwy cyson o gymorth ar gyfer oedolion ag anabledd / anhawster dysgu yn syth ar ôl i blentyn gael ei symud o’u gofal i’w helpu i fynd i’r afael â’r materion sydd wedi effeithio ar eu gallu i fagu plant yn effeithiol a / neu o ofalu’n effeithiol amdanyn nhw eu hunain.

## 9. Cyfeiriadau

Booth T (2005) 'Parents with learning difficulties, child protection and the courts. *Representing Children*, Cyfrol. 13, Rhif. 3, tud.175-188

Cleaver H & Nicholson D (2007) 'Parental Learning Disability and Parents' Needs: Family Experiences and Effective Practice'. Llundain, Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd (Department for Children, Schools and Families)

Cox R, Kroese BS, & Evans R (2015) [Profiadau cyfreithwyr fu'n cynrychioli rhieni ag anableddau deallusol mewn gwrandawiadau gofal]. 'Solicitors' experiences of representing parents with intellectual disabilities in care proceedings: attitudes, influence and legal processes'. *Disability and Society*, 30, 2, 284-298

Daniel B, Taylor J & Scott J ynghyd â Derbyshire, D & Neilson, D (2011) 'Recognizing and Helping the Neglected Child: Evidence-based practice for assessment and intervention'. Llundain, Cyhoeddwyr: Jessica Kingsley Publishers

Yr Adran Iechyd a'r Adran Addysg a Sgiliau *(2007)* 'Good practice guidance on working with rhieni ag anabledd dysgu'. Diweddarwyd yn 2016 gan 'Working Together with Parents Network', Bryste, Norah Fry Centre for Disability Studies, Prifysgol Bryste

Gardner R (golygydd) (2016) 'Tackling Child Neglect: Research, policy and evidence-based practice'. Llundain, Cyhoeddwyr: Jessica Kingsley Publishers

Hewitt O & Clarke A (2016) 'A qualitative investigation into the experiences of having a parent with a learning disability'. *British Journal of Learning Disabilities*, 44, 292–300

Horwath J (2013) 'Child Neglect: Planning and intervention. Basingstoke, Cyhoeddwyr: Palgrave Macmillan Publishers

Malouf R, McLeish J, Ryan S, Gray R & Redshaw M (2017) 'We both just wanted to be normal parents': a qualitative study of the experience of maternity care for women with learning disability. *British Medical Journal Open*. (Lawrlwythwyd Gorff. 17 2018)

McConnell D, Llewellyn G & Ferronato L. (2000) 'Parents with a Disability and the NSW Children's Court, Family Support and Services Project'. Prifysgol Sydney, Lidcombe, NSW, Awstralia

McConnell J & Strike J (2002) 'Parents with intellectual disability: just the same, only different. *Interaction',* 14: 11–5

Wilson S, McKenzie K & Quayle, E (2013) 'A systematic review of interventions to promote social support and parenting skills in parents with an intellectual disability. *Child: Care, Health and Development*, 40, 7–19

McGaw S, Beckley K, Connolly N & Ball K. (1999). Parenting Assessment Manual. Truro, Cyhoeddwyr: Pill Creek Publishing.

McGregor S, Jarrett D & Stewart A (2017) Vulnerable parents with and without a learning disability: long term outcomes for families with and without prior involvement in a parenting skills programme. GIG / NHS Ayrshire & Arran: Ayr

Research in Practice (2018) Supporting parents who have learning disabilities. Dartington, Research in Practice Strategic Briefing

Yr Arolygaeth Gwasanaethau Cymdeithasol / Social Services Inspectorate (1999) A Jigsaw of Services: Supporting disabled adults in their parenting role. Llundain, Yr Adran Iechyd

Stewart A, & MacIntyre G (2017) Parents with learning disability. Insights 37. Yr Alban, Iriss

Tanner K & Turney D (2003) 'What do we know about child neglect? A critical review of the literature and its application to social work practice'. Child and Family Social Work 8(1), 25-34

Tarleton B, Ward L & Howarth J (2006). 'Finding the Right Support: A review of issues and positive practice in supporting parents with learning difficulties and their children'. Bryste: Prifysgol Bryste.

The Kings Fund Centre (1980) 'An Ordinary Life: Comprehensive locally-based residential gwasanaethau for mentally handicapped people'. Llundain, Kings Fund Centre

## Atodiad 1: Nodweddion plentyn, rhiant ac atgyfeirio o fewn carfan y ffeiliau achos a ddadansoddwyd

### Oed, rhyw, ethnigrwydd ac anabledd hysbys y plentyn allweddol

Ystod oed plentyn allweddol y teulu ar adeg yr atgyfeirio at Wasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant oedd rhwng o dan un flwydd oed (yn cynnwys yn y groth) hyd at 15 oed

- Yn y mwyafrif o achosion (37/70 neu 53 y cant), roedd plentyn allweddol y teulu o dan flwydd oed. Atgyfeiriwyd 25/37 o'r plant hyn dan 1 oed tra yn y groth (y fam yn feichiog); 4/37 ar eu genedigaeth (tra yn yr ysbyty); ac 8/37 yn fabanod.
- Mewn 50/70 o 71 y cant o achosion, oed y plentyn allweddol oedd rhwng sero a phedair blwydd oed.
- Mewn 11/70 o 16 y cant o achosion, oed y plentyn allweddol oedd rhwng pump ac unarddeg.
- Mewn 9/70 o 13 y cant o achosion, oed y plentyn allweddol oedd rhwng 12 a 15.

O'r achosion lle roedd rhyw y plentyn yn hysbys roedd (69/70) 55 y cant yn fechgyn a 45 y cant yn ferched.

Disgrifiwyd 67/70, neu 96 y cant, ethnigrwydd plant allweddol fel Gwyn Cymreig neu Brydeinig.
Mewn 2/70 achos, disgrifiwyd ethnigrwydd y plentyn allweddol yn Wyn ac Asiaidd ac yn achos un plentyn arall yn Wyn a Du Affricanaidd.

Mewn 42/70, neu 60 y cant, o achosion, naill ai doedd gan y plentyn ddim anabledd dysgu hysbys, neu doedd hi ddim eto'n bosibl canfod a oedd ganddyn nhw anabledd dysgu. Mewn 19/70, neu 27 y cant, o achosion ystyriwyd bod gan y plentyn allweddol anabledd dysgu yn amrywio o'r mân i'r cymedrol ac mewn 4/70, neu chwech y cant, o achosion anabledd dysgu dwys. Mewn 5/70, neu saith y cant, o achosion, ystyriwyd bod gan y plentyn allweddol anabledd corfforol neu anabledd corfforol ac anabledd dysgu.

### Rhieni a brodyr a chwiorydd

Bron ymhob achos (69/70), y prif riant oedd y fam naturiol. Yn yr achos arall y prif riant oedd y tad naturiol. Roedd tystiolaeth o anabledd / anhawster dysgu ar draws sbectrwm yn cynnwys:

- 3/70 (4 y cant) o'r prif rieni yn ymddangos yn ôl y dystiolaeth bod ganddyn nhw **anabledd dysgu sylweddol** (yn cynnwys diffyg galluedd i wneud penderfyniadau drostyn nhw eu hunain ac/neu i fyw'n annibynnol).
- 25/70 (36 y cant) o rieni gyda'r hyn oedd yn ymddangos yn **anabledd dysgu cymedrol,** rhai ohonyn nhw yn gymwys ar gyfer gweithio gyda, os nad eisoes yn gwneud / mewn cyswllt â gwasanaethau anabledd oedolion .
- 29/70 (41 y cant) o'r prif rieni gyda'r hyn oedd yn ymddangos yn **fân anabledd dysgu** yn cynnwys anawsterau i: ddarllen ac ysgrifennu, prosesu a phwyso a mesur gwybodaeth, cofio gwybodaeth / pethau ac ymateb i gyfarwyddiadau; a/neu Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig.
- 13/70 (19 y cant) o'r prif rieni gyda'r hyn oedd yn ymddangos yn **anhawster dysgu** (yn hytrach nag anabledd dysgu).

Mewn rhai achosion, roedd hi'n anodd ddirnad graddau'r anabledd / anhawster dysgu yn fanwl gywir gan nad oedd yn glir ar y ffeil achos (er enghraifft drwy gyfeirio at asesiad galluedd blaenorol neu gyfredol neu asesiad o fagu plant yn cynnwys elfen o alluedd i fagu plant). Mewn llawer o achosion, roedd hi'n anodd gwahanu effaith anabledd / anhawster dysgu oddi wrth faterion neu gyflwyniadau rhianta eraill, y mwyaf cyffredin oedd problemau iechyd meddwl.

Ystod oed y prif riant (Mam gan amlaf) ar adeg yr atgyfeirio oedd rhwng 17 a 52 yn cynnwys:

- Un prif riant nad oedd ei h/oed yn hysbys
- Dau brif riant oed 50 neu dros drosodd .
- Saith prif riant oedd rhwng 40 a 49 oed.
- Dau ddeg wyth o brif rieni oedd rhwng 30 a 39 oed
- Ugain o rieni oedd rhwng 22 a 29 oed.
- Deg prif riant oedd rhwng 18 a 21 oed
- Dau brif riant oedd yn 17 oed

Cyfartaledd oed y prif riant ar adeg yr atgyfeirio oedd 30 oed

Roedd 25/70 (36 y cant) o'r prif rieni hyn yn rhieni sengl. O'i gyferbynnu â 45/70 (64 y cant) oedd yn cyd-fagu plant ar adeg yr atgyfeirio, yn bennaf gyda thad naturiol y plentyn ond weithiau gyda llys-dad neu aelodau eraill y teulu megis eu rhieni eu hunain (nain a thaid y plentyn). O'r 45 oedd yn cyd-fagu plant:

- Doedd gan 19/45 ddim anabledd dysgu, hyd y gellir casglu.

- Roedd gan 20/45 arwyddion o fân anabledd dysgu
- Roedd gan 6/45 arwyddion o anabledd dysgu cymedrol.

Roedd gan gyfran o’r plant y tybiwyd bod ganddyn nhw brif riant sengl hefyd riant naturiol arall yn byw gerllaw, ac roedd y rhiant arall hwn yn aml, ond ddim bob amser, mewn cysylltiad â nhw a‘u mam.

Roedd gan 24/70 (34 y cant) o’r plant allweddol, yn y sampl o’r ffeiliau achos, frodyr a chwiorydd neu hanner brodyr a chwiorydd yn byw gyda nhw yn y cartref teuluol yn cynnwys:

- 13/70 (19 y cant) gydag un brawd neu chwaer yn byw yn y cartref teuluol.
- 7/70 (10 y cant) gyda dau frawd neu chwaer yn byw yn y cartref teuluol.
- 3/70 (4 y cant) gyda phedwar brawd neu chwaer yn byw yn y cartref teuluol.
- Un plentyn gyda phump o frodyr neu chwiorydd yn byw yn y cartref teuluol.

Roedd gan 26/70 (37 y cant) o’r plant allweddol, yn sampl y ffeiliau achos, frodyr neu chwiorydd neu hanner brodyr a chwiorydd yn byw ar wahân i ofal eu prif riant (y fam ymhob achos) yn cynnwys cyfran uchel oedd wedi cael eu rhoi mewn gofal yn flaenorol oherwydd pryderon am ddiogelwch:

- Roedd gan 14 o blant frawd neu chaer yn byw ar wahân i ofal eu mam (yn bennaf yn blant oedd yn derbyn gofal, wedi’u mabwysiadu neu’n byw gydag aelod o’r teulu o dan Orchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig).
- Dau blentyn gyda dau frawd neu chwaer yn byw ar wahân i ofal eu mam (yn ddau yn derbyn gofal neu wedi’u mabwysiadu)
- Pedwar o blant gyda thri brawd neu chwaer yn byw ar wahân i ofal eu mam (yn bennaf yn blant oedd yn derbyn gofal, wedi’u mabwysiadu neu gyda Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig).
- Un plentyn gyda phedwar brawd neu chwaer yn byw ar wahân i ofal eu mam (wedi’u mabwysiadu neu gyda Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig neu gyda’r rhiant arall).
- Un plentyn gyda phump o frodyr neu chwiorydd yn byw ar wahân i ofal eu mam (i gyd wedi’u mabwysiadu).
- Dau blentyn gyda chwech o frodyr neu chwiorydd yn byw ar wahân i ofal eu mam (naill ai’n derbyn gofal neu wedi marw)
- Dau blentyn gyda wyth o frodyr neu chwiorydd yn byw ar wahân i ofal eu mam (yn derbyn gofal neu wedi’u mabwysiadu).

## Ffynonellau'r Atgyfeirio

Roedd y teuluoedd wedi cael eu hatgyfeirio i Wasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant gan amrediad o asiantaethau, y mwyaf cyffredin oedd sefydliadau'r GIG (mewn 30/70 neu 43 y cant o achosion). O'r atgyfeiriadau hyn gan y GIG, y gwasanaethau oedd yn atgyfeirio fynychaf oedd: Bydwreigiaeth Cymuned neu Nyrsio Cymunedol (18/70 neu 26 y cant o'r garfan drwyddi draw); ac Ymwelwyr Iechyd (7/70 neu 10 cant o'r garfan drwyddi draw). Gwasanaethau eraill y GIG yn atgyfeirio oedd: Bydwreigiaeth Ysbyty neu ofal dwys a Meddygon Teulu.

**Tabl 3: Ffynhonnell a Rheswm dros yr Atgyfeiriadau**

| Ffynhonnell | Amlder |
|---|---|
| GIG | 30 |
| Ysgol | 10 |
| Yr heddlu | 8 |
| Tai | 5 |
| Awdurdod lleol arall | 4 |
| Hunan gyfeirio (rhiant) | 3 |
| Gofal cymdeithasol oedolion | 3 |
| Gwasanaethau mewnol eraill i blant | 3 |
| Rhywun di-enw yn atgyfeirio | 2 |
| Tîm pontio y cyngor (gwasanaeth plant i wasanaeth anabledd oedolion) | 1 |

## Atodiad 2: Cwestiynau cryno a ddefnyddiwyd mewn cyfweliadau gyda rhieni

- Pan wnaethoch chi feichiogi:
    - Beth oedd eich oed?
    - Ble oeddech chi'n byw?
    - Gyda phwy oeddech chi'n byw?
    - Oedd yna bobl eraill oedd yn bwysig i chi?
- Tra roeddech chi'n feichiog:
    - Oeddech chi'n parhau i fyw yn yr un lle?
    - Oeddech chi'n parhau i fyw gyda'r un bobl?
    - Oedd gennych yn dal i fod yr un bobl oedd yn bwysig i chi?
    - Wnaeth rhywbeth arall newid tra roeddech yn feichiog?
- Sut oeddech yn teimlo am fod yn feichiog?
- Pa fath o gymorth gawsoch chi, os oedd unrhyw gymorth, tra roeddech yn feichiog?
- Beth ddigwyddodd ar ôl i'r babi gael eni?
- Pa fath o gymorth gawsoch chi, os cawsoch unrhyw gymorth, ar ôl i'r babi gael ei eni?
- Os oedd gan eich plentyn weithiwr cymdeithasol, beth oedd y rheswm yn eich tyb chi?
- Sut wnaeth y gweithiwr cymdeithasol helpu, os o gwbl? Beth allai fod wedi gwneud yn well ? Pa mor hawdd oedd hi i gysylltu â'r gweithiwr cymdeithasol? Pa mor hawdd oedd hi i siarad yn onest gyda'r gweithiwr cymdeithasol? Oedd e/hi'n deall eich anghenion a'ch pryderon?
- Pa gymorth arall gawsoch chi o ran magu plant neu gyfleu eich barn, os cawsoch chi unrhyw gymorth?
- Pa mor hir barodd y cymorth? A barodd yn rhy hir, tua'r hyd iawn, ddim yn llawn digon hir neu ddim yn ddigon hir o gwbl?
- Wnaeth y cymorth eich helpu i ofalu am eich plentyn (er enghraifft, do llawer, gweddol ddigonol, ychydig bach, ddim o gwbl)? Sut gallai fod yn well / hyd yn oed yn well?
- Sut mae pethau nawr?

## Atodiad 3: Cwestiynau cryno a ddefnyddiwyd gyda gweithwyr proffesiynol

- Pa mor hawdd / anodd ydy hi i nodi rhieni ag anabledd dysgu (gyda golwg ar ddarparu cymorth)?
- I ba raddau mae gwybodaeth a chyngor yn hygyrch ar gyfer rhieni ag anabledd dysgu am wasanaethau cymorth a sut i'w cyrchu?
- Sut brofiad ydy e i rieni ag anabledd dysgu gael eu hatgyfeirio at Wasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant?
- I ba raddau mae rhieni ag anabledd dysgu yn profi cyfathrebu clir (am yr hyn sy'n digwydd a pham a'r hyn sy'n ofynnol ac a ddisgwylir ganddyn nhw a pha gymorth y gallan nhw ei gyrchu) o fewn y broses statudol?
- I ba raddau mae rhieni ag anabledd dysgu yn cael cymorth i fod yn rhieni digon da gan wasanaethau statudol a/neu wasanaethau eraill os oes gan eu plant gynllun gofal a chymorth?
- I ba raddau mae rhieni ag anabledd dysgu yn cael eu cynorthwyo yn ddigon hir?
- I ba raddau mae cymorth ataliol (cymorth cynnar neu help cyn-geni) yn hygyrch i rieni ag anabledd dysgu yn cynnwys cyn efallai bod angen cynllun gofal a chymorth?
- I ba raddau mae rhieni yn cael eu cymell a'u cynorthwyo i gyfranogi yn y broses o ddiogelu plant neu gynlluniau statudol eraill?
- I ba raddau mae galluedd rhieni ag anabledd dysgu i fagu plant yn cael ei asesu yn dda?
- I ba raddau mae gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion neu wasanaethau ehangach y cyngor yn cynorthwyo llesiant plant, rhieni ag anabledd dysgu a theuluoedd?
- I ba raddau mae rhieni ag anabledd dysgu yn ymwneud yn ddiangen â gwasanaethau gofal cymdeithasol neu bod eu plant yn cael eu gosod mewn gofal yn ddiangen?
- Sut gallwn hyrwyddo arferion da wrth weithio gyda rhieni ag anabledd dysgu?

## Atodiad 4: Astudiaethau Achos

Mae’r achosion hyn sy’n cynrychioli ymarfer mwy positif ac ymarfer mwy cyfyngedig yn deillio o elfen dadansoddi ffeiliau achos yr astudiaeth. Newidiwyd enwau go wir pobl i ddiogelu cyfrinachedd yr holl gyfranogwyr.

**Astudiaeth Achos: Wendy**

Atgyfeiriwyd plentyn heb ei eni Wendy at Wasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant gan ei bydwraig oedd yn mynegi ei phryder bod plentyn hŷn wedi cael ei symud i ofal ei nain oherwydd esgeulustod ac oherwydd problemau iechyd meddwl cyfredol y darpar rieni. Roedd Wendy yn cael cymorth gan y Tîm Anabledd Dysgu Oedolion, oherwydd ei bod yn cael trafferth i gofio gwneud pethau ac i ddeall anghenion pobl eraill. Credir bod ei phartner hefyd ag anabledd dysgu cymedrol.

Yn amlwg, cymerodd gweithiwr cymdeithasol y plentyn ei hamser gyda Wendy i egluro’r pryderon ac i gydnabod anhawster Wendy i amsugno gwybodaeth. Seiliwyd yr asesiad (yn cynnwys elfennau generig ac elfennau arbenigol PAMS) ar gryfderau ac arweiniodd hyn at lunio cynllun o gymorth dwys wedi’i deilwra at anghenion Wendy (er enghraifft awgrymiadau gweledol, ailadrodd, help ymarferol gyda thasgau penodol). Roedd y cynllun yn cynnwys cymorth penodol un-i-un i fagu plant; eiriolaeth; cymorth emosiynol ac ymarferol gan weithwyr cymdeithasol plant ac oedolion ac hefyd gofal seibiant cyson gyda gofalwr maeth y mae’r plentyn yn ei nabod (yn rhannol oherwydd bod gan y plentyn anghenion arbennig hefyd).

Darparwyd nodiadau hawdd eu darllen a/neu nodiadau darluniadol ar gyfer Wendy ar ôl cyfarfodydd allweddol a defnyddiwyd ffurfiau darluniadol hefyd i gofnodi ei barn am wasanaethau a chynlluniau. Cafodd help eiriolwr drwy gydol y broses.

**Astudiaeth Achos: Stephanie**

Atgyfeiriwyd Stephanie gan ei bydwraig i Wasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant oherwydd iddi golli ei hapwyntiadau cyn-geni ond eisoes roedd gan yr Heddlu bryderon ynghyd â galwadau i’r cartref oherwydd nifer o achlysuron o drais domestig a'r Fam yn cael ei cham-drin yn ariannol gan ei phartner. Roedd hefyd yn hysbys bod tad y babi nad oedd eto wedi’i eni yn camddefnyddio cyffuriau a hanes o droseddu yn cynnwys troseddau rhywiol. Roedd gan y Fam broblemau iechyd meddwl, roedd yn wybyddus i’r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol ac roedd yn niweidio’i hun. Roedd Stephanie wedi mynd i fyw gyda’i rhieni ond y farn oedd bod yr amgylchiadau yno hefyd yn rhai gwael iawn.

Nodwyd (mân) anabledd dysgu Stephanie yn ystod asesiad y gweithiwr cymdeithasol wrth ryngweithio gyda hi. Ymgysylltodd Stephanie yn effeithiol gyda gweithiwr

cymdeithasol ei phlentyn nad oedd eto wedi'i eni a chafodd fynediad cynnar i eiriolaeth ac i becyn cymorth teuluol dwys wedi'i deilwra oedd yn para am 12 mis ac yn cynnwys:

- lleoliad mam a'i phlentyn,
- ac yna lleoliad ag ychydig o gymorth cynhwysol wedi'i deilwra i fagu plentyn yn cynnwys rhai gwasanaethau a grwpiau cymorth arbenigol (penodol i anabledd dysgu) ar gyfer magu plant.

Cafodd Stephanie hefyd gynnig cymorth Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Oedolion ond gwrthododd hynny

Mae'r fam a'i phlentyn wedi gwneud cynnydd da ac yn ddiweddar gollyngwyd y Gorchymyn Gofal (yn gofyn am i'r plentyn gael ei leoli gartref). Fodd bynnag, mae arwyddion yn y ffeil bod angen peth cymorth parhaus i fagu'r plentyn yn ogystal ag ar gyfer ei hunan-ofal.

**Astudiaeth Achos: Veronica**

Atgyfeiriwyd mab (saith oed) Veronica a'i frawd gan yr ysgol at Wasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant oherwydd eu hymddygiad heriol a'u hysbryd isel. Credir bod gan y ddau anabledd dysgu mân i gymedrol. Credir bod gan Veronica ei hun anableddau dysgu cymedrol canolig a chaiff ei chynorthwyo gan Wasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion. Mae hi hefyd yn cymryd moddion ar gyfer ei hiselder.

Cafwyd atgyfeiriadau eraill i Wasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant a chynlluniau gofal a chymorth blaenorol, y rhain hefyd yn gysylltiedig â phryderon am ymddygiad y plant ac am lendid y cartref a/neu gam-drin domestig. Roedd Veronica hefyd wedi derbyn cymorth blaenorol gan wasanaethau Dechrau'n Deg a 'Home Start'.

Derbyniodd Veronica wybodaeth glir ac effeithiol gan weithiwr cymdeithasol y plant ac asesiad sensitif yn seiliedig ar gryfderau yn cynnwys y Gwasanaeth Plant a'r Tîm Dysgu Oedolion ar y cyd.

Darparwyd cymorth heb fod yn ddwys ond wedi'i deilwra yn cynnwys help ymarferol o fewn y cartref. Ffocws y cymorth hwn oedd codi hyder a sgiliau Veronica i fagu ei phlant yn ogystal â gwaith tŷ arferol a hyn wedi'i gyfuno gyda mynediad i rwydweithiau cymorth grwpiau priodol tu allan i'r cartref (ar gyfer Veronica a'r plant. Trefnwyd y cymorth ar y cyd gan wasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant, Gofal Cymdeithasol Oedolion a gwasanaethau iechyd cymunedol (yn bennaf Dechrau'n Deg). Pwysleisiodd hyn bod rhaid atgyfnerthu agweddau allweddol o fagu plant a hunan effeithiolrwydd a chymorth i arfer ac ymgorffori'r rhain a gwneud hyn i gyd yn gyson.

Ymgysylltodd Veronica yn dda iawn gyda'r cymorth ac yn fwy diweddar mae hi wedi mentro i sefydlu cymorth yn y gymuned drosti hi ei hun.

**Astudiaeth Achos: Penny**

Atgyfeiriwyd plentyn heb ei eni Penny at Wasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant gan yr heddlu oedd yn pryderu bod dyn sy'n droseddwr rhyw gwybyddus yn ymweld â'r cartref. Roedd gan Penny dri o blant hŷn oedd yn derbyn gofal oherwydd esgeulustod. Roedd gan ei phartner blant hŷn oedd hefyd yn derbyn gofal yn flaenorol ac mae e wedi ei gofrestru yn droseddwr rhyw. Mae gan Penny broblemau symudedd a phroblemau iechyd meddwl. Ar adeg yr atgyfeirio roedd hi'n byw ar wahân i'w theulu lle bu ychydig i wrthdaro parhaus. Doedd hi erioed yn glir, o ddadansoddiad y ffeiliau achos, pa fath o anabledd dysgu sydd gan Penny na lefel yr anabledd hwnnw, er y nodwyd ei bod yn cael trafferth i gofio gwybodaeth ac i berfformio tasgau sylfaenol magu plant.

Ymwelwyd â'r darpar rieni unwaith cyn genedigaeth y plentyn er mwyn cynnal asesiad. Ceisiodd y gweithiwr cymdeithasol gynnwys gwasanaethau cymorth dwys yn y gymuned i deuluoedd er mwyn cynnig rhaglen fagu plant un-i-un i'r darpar rieni, ond ganwyd y plentyn cyn ei amser felly, dim ond dwy sesiwn a gynhaliwyd.

Ar ôl geni'r plentyn, daethon nhw o dan Orchymyn Gofal Interim a threuliodd y babi gyfnod yn yr adran gofal dwys cyn gael ei leoli gyda Penny mewn lleoliad mam a'i phlentyn, a chomisiynwyd asesiad PAMS. Nodwyd ar y ffeil nad oedd y lleoliad mam a'i phlentyn yn lleoliad profiadol, arbenigol ond yn hytrach yn lleoliad maethu 'arferol' a addaswyd i letya'r teulu hwn. Ar y dechrau ymglymodd Penny yn eitha da ond cofnodwyd anawsterau cyfathrebu rhwng y gofalwr maethu a'r Fam (disgrifiwyd y gofalwr maeth yn 'ddiystyriol a nawddoglyd' gan weithwyr eraill). Daeth asesiad PAMS i'r casgliad ar ôl 3 mis nad oedd y Fam wedi gwneud digon o gynnydd i ddelio gyda'r pryderon a doedd hi ddim yn debygol o ddiwallu anghenion y plentyn (o gofio'i hanghenion arbennig hi ei hun) dros amser.

**Astudiaeth Achos: Miranda**

Atgyfeiriwyd babi heb ei eni Miranda at Wasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant pan oedd yn 16 wythnos i mewn i'w beichiogrwydd ac yn 19 oed ac yn byw gyda theulu ei chariad. Y pryder oedd ei bod yn yfed llawer o alcohol ac yn niweidio'i hunan, hefyd bod plentyn hŷn wedi cael ei osod mewn gofal yn flaenorol ar ôl cyfnod byr gyda Mam mewn lleoliad mam a'i phlentyn. Yn ystod y trafodaethau am y plentyn hŷn nodwyd bod gan Miranda ddiffyg galluedd deallusrwydd sylweddol yn cynnwys diffyg galluedd i ddeall cyngor cyfreithiol. Cyfeiriwyd hi ddwywaith at Wasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant cyn cael ei derbyn. Hefyd, nododd asesiad ar gyfnod hwyr ychydig o gam-drin domestig a cham-ddefnyddio alcohol gan y darpar dad. Datblygodd y Fam berthynas newydd gyda phartner newydd yn fuan wedi hyn.

Gwnaed cais cynnar i’r llys am Orchymyn Gofal Interim a dilynwyd hyn gan leoliad mam a’i phlentyn.

Roedd y sgyrsiau cynnar parhaus rhwng y gweithiwr cymdeithasol a Miranda yn gyfyngedig iawn, yn bennaf yn alwadau ffôn, gyda’r gweithiwr cymdeithasol yn pwysleisio’r cyd-gysylltiad rhwng trefnu lleoliad mam a’i phlentyn ac asesiad PAMS i’w gynnal gan ymgynghorydd annibynnol. Nododd asesiad PAMS y byddai angen rhaglen magu plant benodol iawn ar y Fam a’i phartner i’w helpu nhw i gydnabod eu problemau a gweithio ar amrediad o faterion a nodwyd.

Er bod y rhieni wedi ymwneud â’r lleoliad mam a’i phlentyn, methodd hyn yn gymharol fuan (o fewn pedair wythnos) oherwydd pryderon am sut roedd y babi yn cael ei drin yn gorfforol a newidiwyd y cynllun yn gymharol gyflym i ddod o hyd i gartref parhaus ar gyfer y babi cyn i unrhyw raglen bwrpasol ddwys allu cael ei sefydlu.

**Astudiaeth Achos: Helena**

Atgyfeiriwyd babi heb ei eni Helena at Wasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant gan y Gwasanaethau Tai oedd yn y broses o ail-feddiannu cartref Helena oherwydd ei gyflwr gwael eithriadol. Roedd pryderon, yn y cyd-destun hwn, am lesiant babi Helena oedd heb ei eni. Roedd Helena yn gymharol ifanc ac yn fam am y tro cyntaf. Ystyriwyd (o ymglymiad blaenorol â Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a CAMHS yn blentyn) bod ganddi anawsterau dysgu ynghyd ag ADHD a phroblemau iechyd meddwl, ac o ganlyniad yn cael anawsterau i ffocysu, cynllunio a hunan reoli. Hefyd ystyriwyd ei bod yn agored iawn i niwed, yn cael perthynas rywiol achlysurol mynych, yn cwrdd â dynion ar y cyfryngau cymdeithasol ac ag anghenion ac ymatebion emosiynol cymhleth iawn. Doedd neb yn gwybod pwy oedd tad y babi.

Roedd cyfathrebiadau cyntaf parhaus y gweithiwr cymdeithasol yn effeithiol, yn cynnwys cynnig gwybodaeth glir a hygyrch yn ystod y cyfnod asesu i ddisgrifio’r pryderon.

Ar ôl asesiad cyn-geni, ceisiodd y gweithiwr cymdeithasol drefnu cymorth ‘ffiniau gofal’ ar gyfer y Fam ond roedd y babi wedi ei eni gryn dipyn o flaen ei amser, ac felly ni ddigwyddodd hyn. Symudwyd y babi ar y cyfnod Gorchymyn Gofal Interim (gan gyfeirio at anghenion sylweddol y Fam, yn enwedig ei bod yn mynd yn rhwystredig yn hawdd a bod ganddi anhwylder personoliaeth) felly roedd y cymorth ar gyfer Helena wrth aros am y Gwrandawiad Gofal terfynol yn ymwneud â’i chysylltiad dan oruchwyliaeth â’r babi. Roedd y cymorth hwn wedi’i deilwra’n dda gan ei fod yn cael ei gyflenwi gan weithwyr cymorth medrus wedi’u hyfforddi ym maes magu plant, yn modelu a chynghori Helena ar sgiliau sylfaenol gofalu am fabi a’i chynorthwyo i weithredu arferion glanhau tŷ. Fodd bynnag,

roedd hefyd yn gyfyngedig gan nad oedd yn gallu cynorthwyo Helena yn ei chartref ei hunan, gyda'r babi yn byw gyda hi.

Mynychodd Helena yr holl sesiynau cyswllt a sesiynau adolygu plentyn ac roedd yn agored i ymweliadau gan bob gweithiwr cymdeithasol yn ystod y cyfnod hwn. Fodd bynnag, daeth yr asesiad galluedd ar Helena, a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod hwn, i'r casgliad na fyddai'n gallu magu'r babi yn ddiogel nac ymateb yn bositif i therapi ar hyn o bryd.